

Adolygiad Dysgu Prevent

Axel Muganwa RUDAKUBANA (AMR)

Perchnogion:	Prevent (Grŵp Diogelwch Y Wladwriaeth a'r Swyddfa Gartref) a Phencadlys Plismona Gwrthderfysgaeth
Fersiwn:	Adroddiad wedi'i olygu

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	3
Cyflwyniad	4
Amserlen fanwl gyda chanlyniadau dysgu	7
Cyn yr atgyfeiriad cyntaf	7
Atgyfeiriad Prevent cyntaf AMR	7
Ail atgyfeiriad Prevent AMR	25
Trydydd Atgyfeiriad Prevent AMR	30
Casgliadau	34
Argymhellion	36
Atodiad A – Cylch Gorchwyl	39
Atodiad B – Rhestr o ddogfennau y gofynnwyd amdanynt	46
Atodiad C – Llythyr ar y Cyd gan HSG a CTPHQ yn 2019 ynghylch MUU	49
Atodiad D – Proses atgyfeirio Prevent	53

Crynodeb Gweithredol

Comisiynwyd yr Adolygiad Dysgu Prevent hwn (o hyn ymlaen yr 'Adolygiad') i archwilio ymwneud Prevent ag Axel Muganwa Rudakubana (AMR) cyn yr ymosodiad trasig a arweiniodd at golli tri bywyd ifanc, a gyflawnwyd yn honedig gan AMR, ar 29 Gorffennaf 2024 yn Southport. Gwneir hyn gyda'r nod o nodi ymarfer effeithiol, cyfleoedd dysgu sefydliadol ac unrhyw feysydd pellach ar gyfer datblygiad. Cydnabyddir yn llwyr ar adeg dechrau'r adolygiad hwn, bod yr erlyniad wedi dechrau awdurdodi cyhuddiadau. Felly, mae achosion troseddol yn weithredol (*sub judice*). O'r herwydd mae'r Adolygydd yn ymwybodol na ddylai'r Adolygiad beryglu na dylanwadu ar y prosesau barnwrol a chrwnerol parhaus ac mae wedi cydymffurfio â chanllawiau gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) wrth gynnal yr Adolygiad.

Cyfeiriwyd AMR at Prevent dair gwaith. Derbyniwyd yr **atgyfeiriad cyntaf** gan athro AMR ar 5 Rhagfyr 2019. Adroddodd yr athro nifer o bryderon ynglŷn ag ymddygiadau a oedd yn cynnwys cael ei wahardd o'i ysgol flaenorol am gario cyllell a chwilio am ddigwyddiadau saethu ysgol torfol ar y rhyngwrdd gan ddefnyddio ei gyfrif ysgol. Ar ôl trafodaeth gyda swyddogion Prevent (CTCOs) lle eglurodd AMR ei chwiliadau ar y rhyngwrdd, caewyd yr achos ar y system Prevent ar 31 Ionawr 2020. Gwneir cydnabyddiaeth bod AMR yn hynod agored i niwed ond nid oes unrhyw bryderon CT/DE ac mae asiantaethau priodol eisoes ar waith i'w gefnogi. Derbyniwyd **ail atgyfeiriad** gan ysgol flaenorol AMR ar 01 Chwefror 2021. Adroddwyd bod disgybl wedi dangos postïadau [cyfryngau cymdeithasol] iddyn nhw gan AMR oedd yn eu pryderu ac roedden nhw'n teimlo bod AMR yn cael ei radicaleiddio. Cydnabu'r CTCO yr atgyfeiriad blaenorol; fodd bynnag, ystyriodd nad oedd y postïadau [cyfryngau cymdeithasol] yn berthnasol i CT / DE a chafodd yr achos ei gau ar 17 Chwefror 2021. Derbyniwyd **trydydd atgyfeiriad** gan athro AMR ar 26 Ebrill 2021. Adroddodd fod AMR wedi cael ei arsylwi gyda thabïau rhyngwrdd ar agor yn ystod gwrs yn dangos chwilio am Fom Llundain ac roedd yn ymddangos bod ganddo ddiddordeb angerddol yng ngwrthdaro Israel/Palestina, MI5 a'r IRA. Mae'r CTCO yn cydnabod y ddau atgyfeiriad blaenorol ond o'r farn bod anghenion AMR yn cael eu diwallu ar hyn o bryd y tu allan i Prevent ac nad oedd unrhyw bryderon CT/DE i'w datrys. Caewyd yr achos ar 10 Mai 2021.

Ar y cyfan, mae'r Adolygydd o'r farn bod lefel uchel o gydymffurfiaeth wedi bod gan y swyddogion Prevent ag amserlenni prosesau, cwblhau asesiad a chadw at bolisi a oedd ar waith ar y pryd. Fodd bynnag, er bod prosesau a pholisïau wedi'u dilyn i raddau helaeth, mae'r penderfyniadau goddrychol sydd wedi dod i ffocws a dylai AMR fod wedi cael ei gyfeirio at Channel. Mae'r Adolygiad yn nodi sawl maes ar gyfer dysgu i gryfhau asesiadau risg, yn enwedig o amgylch deall dangosyddion radicaleiddio lle nad yw ideoleg gydlynol yn bresennol a chydabod y risg bosibl o atgyfeiriadau lluosog. Mae nifer o argymhellion wedi'u nodi trwy'r adolygiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys cryfhau hyfforddiant ac arweiniad, newidiadau i'r derminoleg a ddefnyddir o fewn Prevent, a gwella prosesau sicrwydd.

Cyflwyniad

Pwrrpas yr adolygiad

Ar 29 Gorffennaf 2024, ymosodwyd ar un ar ddeg o blant a dau oedolyn gydag arf â llafn. Mae Heddlu Glannau Merswy wedi cadarnhau bod tri o'r dioddefwyr wedi marw: Bebe (merch chwech oed), Elsie (merch saith oed) ac Alice (merch naw oed). Cafodd dyn Prydeinig 17 oed, yn Southport, ei arestio gan yr heddlu yn y fan a'r lle. Cyfeiriwyd y troseddwr honedig, Axel Muganwa Rudakubana (AMR), at Prevent i'w asesu dair gwaith rhwng 2019 a 2021. Bob tro roedd yn cael ei ystyried yn anaddas ar gyfer ymyrraeth yn y cam asesu cychwynnol hwnnw; ni chafodd ei gyfeirio at Channel.

Gan fod AMR wedi'i gyfeirio at Prevent cyn y digwyddiad honedig, comisiynwyd Adolygiad Dysgu Prevent (o hyn ymlaen yr 'Adolygiad') ar y cyd gan Grŵp Diogelwch Y Wladwriaeth (HSG) a Phencadlys Plismona Gwrthderfysgaeth (CTPHQ) i adolygu rheolaeth achosion Prevent o AMR yn ystod y cyfnod 2019 i 2021. Y nod oedd nodi a ellir gwella polisi cenedlaethol neu nodi dysgu gweithredol a sut y gellir gwneud hynny.

Pan ddechreuodd yr Adolygiad hwn, roedd AMR wedi cael ei arestio ac mae'n wynebu tri chyhuddiad o lofruddiaeth, 10 cyhuddiad o geisio lofruddio, a chyhuddiad o feddu eitem â llafn. Mae'r mater hwn 'Sub Judice'. Rhaid i'r broses adolygu hon felly fod yn ymwybodol o, a pheidio â rhwystro neu beryglu unrhyw ymchwiliadau heddlu parhaus neu achosion barnwrol sy'n gysylltiedig â'r achos hwn. Byddwn yn cysylltu â'r SIO i sicrhau bod uniondeb yr ymchwiliad yn cael ei gadw.

Methodoleg

Mae'r Adolygiad yn dilyn y fethodoleg fel y nodir yn Nhermau Gorchwyl yr Adolygiad, sydd i'w gweld yn yr Atodiadau o dan [Atodiad A](#). Nod cyffredinol yr Adolygiad yw nodi a ellir dysgu unrhyw wersi o reolaeth achos Prevent o AMR y gellir eu cario ymlaen i bolisi, canllawiau neu arfer gorau yn y dyfodol.

Oherwydd yr awydd i nodi a gweithredu dysgu ar y cyfle cynharaf, yr amseroedd cychwynnol ar gyfer yr Adolygiad oedd pythefnos. Rhoddwyd estyniad i roi amser i'r Adolygydd adolygu gwybodaeth nad oedd ar gael ar unwaith ond sy'n berthnasol i'r Adolygiad.

Roedd yr Adolygiad yn cynnwys craffu ar wybodaeth achosion a gofnodwyd gan yr heddlu ar y Traciwr Rheolaeth Achos Prevent (PCMT), nodi a gofyn am ragor o wybodaeth lle bo angen (er enghraifft, pan gaiff ei gynnal ar systemau plismona ar wahân). Yna cafodd y camau a gymerwyd eu meincnodi yn erbyn polisi a chanllawiau a oedd yn bodoli ar y pryd. Adolygwyd polisi a chanllawiau cyfredol hefyd i ganiatáu i'r Adolygydd ystyried lle gallai newidiadau fod eisoes wedi datrys meysydd dysgu posibl.

Roedd yr Adolygiad yn cydymffurfio â'r canllawiau a roddwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron ac yn parhau i fod yn adolygiad desg. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr Adolygydd yn gallu cyfweld ag AMR, y swyddogion Prevent sy'n ymwneud â'i reoli achosion, nac unrhyw unigolion eraill a ymgysylltodd ag AMR yn ystod y cyfnod amser perthnasol (2019 i 2021). Mae'n bwysig nodi nad yw'r unigolion hynny y cyfeirir atynt yn yr Adolygiad hwn felly wedi cael hawl i ateb, a chymerir yr holl wybodaeth o'r ffordd y mae wedi'i chofnodi yn y PCMT.

Yn ystod yr adolygiad hwn gofynnwyd am a darparwyd dogfennau allweddol. Gellir dod o hyd i restr o'r dogfennau hyn yn [Atodiad B](#). Mae'r mwyafrif o'r rhain yn eiddo i CTPHQ. Nid oedd rhai dogfennau ar gael am wahanol resymau, gan gynnwys y cyfyngiadau amser, a'r cyfyngiadau ar rannu dogfennau oherwydd prosesau barnwrol a chrwnerol parhaus. Noder, mae hyn hefyd yn cynnwys cysylltu ag asiantaethau eraill neu ofyn am wybodaeth gan asiantaethau eraill a allai fod wedi bod yn cynnal eu hadolygiadau mewnol eu hunain ar yr un pryd. Er bod hyn wedi cyfyngu cwrmpas dysgu o'r Adolygiad hwn, mae'r Adolygydd yn hyderus nad yw wedi rhwystro'r gallu i gynhyrchu dysgu gwerthfawr. Gellir nodi dysgu ychwanegol pan fydd cyfle i gymryd dull mwy cyfannol.

Mae'r Adolygiad wedi cymryd ymagwedd gronolegol. Mae amserlen fanwl wedi'i nodi ar gyfer pob un o atgyfeiriadau Prevent, gan asesu a oedd y polisi ar y pryd yn cael ei ddilyn, a darparu pwyntiau dysgu cyfatebol, llythrennau A i Z. Lle mae'r Adolygydd yn credu eu bod yn angenrheidiol, mae argymhellion wedi'u gwneud, rhifau 1 i 14. Gellir dod o hyd i drosolwg o broses atgyfeirio Prevent yn [Atodiad D](#).

Crynodeb o reolaeth achos Prevent AMR

Atgyfeiriad Prevent 1

Dyddiad: 5 Rhagfyr 2019

Cyfeiriwr: Athro yn ysgol Acorns (yr ysgol bresennol ar y pryd)

Rhesymeg: Yn adrodd nifer o bryderon ynghylch ymddygiadau a oedd yn cynnwys cael ei eithrio o'i ysgol flaenorol am gario cylllell a chwilio am saethu ysgol torfol ar y rhyngwrwyd gan ddefnyddio ei gyfrif ysgol.

Camau gweithredu: Swyddogion heddlu Prevent (CTCOs) i ymweld ag AMR yn gofyn iddo egluro'r chwiliadau yr oedd wedi bod yn eu cynnal gan ddefnyddio rhyngwrwyd yr ysgol, a rhoddodd eglurhad am bob un ohonyn nhw.

Cau: Caewyd yr achos ar y system Prevent ar 31 Ionawr 2020. Gwneir cydnabyddiaeth bod AMR yn hynod agored i niwed ond nid oes unrhyw bryderon CT/DE ac mae asiantaethau priodol eisoes ar waith i'w gefnogi.

Atgyfeiriad Prevent 2

Dyddiad: 01 Chwefror 2021

Cyfeiriwr: Athro o ysgol flaenorol (yr oedd AMR wedi'i eithrio ohoni)

Rhesymeg: Adroddiadau bod disgybl wedi dangos postïadau [cyfryngau cymdeithasol] iddyn nhw gan AMR yr oedden nhw'n bryderus yn eu cylch ac yn teimlo bod AMR yn cael ei radicaleiddio.

Camau gweithredu: Mae CTCO yn asesu'r atgyfeiriad o'r wybodaeth a ddarperir yn yr atgyfeiriad yn unig. Ni chymerir unrhyw gamau ychwanegol na cheisir rhagor o wybodaeth. Cydnabyddir yr atgyfeiriad blaenorol.

Cau: Caewyd yr achos ar 17 Chwefror 2021. Ystyriwyd nad oedd y postïadau [cyfryngau cymdeithasol] yn berthnasol i CT / DE.

Atgyfeiriad Prevent 3

Dyddiad: 26 Ebrill 2021

Cyfeiriwr: Ysgol Acorns

Rhesymeg: Adroddiadau bod AMR wedi ei weld gyda thabiau rhyngrwyd ar agor yn ystod gwers sy'n dangos chwiliad am Fom Llundain ac yn ymddangos bod ganddo ddiddordeb angerddol yng ngwrthdaro Israel/Palestina, MI5 a'r IRA.

Camau gweithredu: Mae CTCO yn asesu'r atgyfeiriad o'r wybodaeth a ddarperir yn yr atgyfeiriad yn unig. Ni chymerir unrhyw gamau ychwanegol ac ni cheisir rhagor o wybodaeth. Cydnabyddir y ddau atgyfeiriad blaenorol.

Cau: Caewyd yr achos ar 10 Mai 2021. Cydnabuwyd atgyfeiriadau blaenorol ond ystyriwyd bod anghenion AMR yn cael eu diwallu ar hyn o bryd y tu allan i Prevent ac nad oedd unrhyw bryderon CT/DE i'w datrys.

Amserlen fanwl gyda chanlyniadau dysgu

Cyn yr atgyfeiriad Cyntaf

Ym mis Ebrill 2019, cafodd AMR ei enwi fel dioddefwr bwlio a chyfaddefodd ei fod yn cario cyllell yn yr ysgol. Siaradwyd ag AMR gan yr heddlu a gwnaed atgyfeiriad risg uchel i Amddiffyn Pobl Agored i Niwed (PVP) i'r heddlu.

Mae'n ymddangos bod AMR wedi cysylltu â'r Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (NCA) gan adrodd ei fod yn cael ei fwlio yn yr ysgol gan berson a enwir ac yn cyfaddef mynd â chyllell i'r ysgol. Cysylltodd NCA â'r heddlu lleol gan rannu'r wybodaeth hon ac ymwelodd swyddogion ag AMR yn ei gyfeiriad cartref. Nid ydym wedi gofyn am na chael y wybodaeth hon gan yr heddlu a'r NCA oherwydd yr amserlenni byr ar gyfer cynnal yr adolygiad.

Yn gynnar ym mis Rhagfyr 2019, mynychodd AMR ei ysgol flaenorol ac ymosododd ar ddisgybl gyda ffon hoci gan achosi Gwir Niwed Corfforol (ABH) a chafodd ei ddarganfod yn meddu ar gyllell. Cafodd ei arestio ar 11/12/2019 a'i gymryd i ddalfa'r heddlu.

Atgyfeiriad Prevent Cyntaf AMR

05/12/2019

Atgyfeiriad Cyntaf – cyflwynwyd gan athro o Ysgol Acorns, Ormskirk. Roedd AMR yn 17 oed pan ddigwyddodd y digwyddiad yn Southport ar 29 Gorffennaf 2024, ac ar adeg yr adolygiad hwn mae'n 18 mlwydd oed. Byddai AMR wedi bod yn 13 oed ar adeg yr atgyfeiriad cyntaf.

Roedd AMR yn byw gyda [theulu] yn [ardal] Sir Gaerhirfryn.

Roedd yr atgyfeiriad yn cynnwys y wybodaeth ganlynol a ddangosir yn nodiadau PCMT:

- 17/10/2019 Cafodd AMR ei eithrio o'i ysgol flaenorol Ysgol Uwchradd Range ar ôl cael ei ddarganfod gyda chyllell yn ei feddiant. Cyfaddefodd hefyd fynd â chyllell i Ysgol Uwchradd Range ar 10 achlysur gwahanol.
- 15/11/2019 Canfuwyd AMR yn ymchwilio i saethu ysgolion yn America yn ystod gwrs 'TGCh'.
- Gwelwyd ef ar 29/11/2019 yn ystod gwrs yn cerdded o gwmpas yn dyrnu ei law yn galed, neidio i fyny hefyd gan ddyrnu gwrthrych lamedig oedd yn crogi o'r nenfwd yn galed iawn. Yn ystod trafodaeth ar sut i hyrwyddo busnes, awgrymwyd i AMR y gallai ddweud bod ei fusnes yn newydd i'r ardal. Roedd AMR yn meddwl nad oedd hyn yn syniad da gan y gallai pobl feddwl ei fod yn mynd i'w lladd.
- 03/12/2019 yn ystod gwrs gelf cwestiynodd AMR pam ei fod yn gallu tynnu lluniau o gynau ond nid eu chwilio ar y rhyngwyd ac yna gofynnodd 'a allwn ni gael llun o ben wedi'i dorri felly'.
- Hefyd ar 03/12/2019 mewn gwrs arall, clywyd AMR yn siarad â disgybl am wyllo fideos o bobl yn brifo eu hunain. Gwnaeth AMR sylw graffig hefyd am ddarn o ddril yn torri a lladd rhywun.
- 04/12/2019 Roedd yn amlwg i'r ysgol bod 2 awdurdod lleol perthnasol, [un lle roedd yn byw], a [un lle aeth i'r ysgol]. Roedd cyngor yn cael ei geisio ynglŷn â blaenoriaeth ar gyfer cyfranogiad canolfan diogelu aml-asiantaeth (MASH).

- 04/12/2019 Gwelwyd AMR yn defnyddio iaith amhriodol gan ddweud bod Nicola Sturgeon 'yn edrych fel retard'.
- 04/12/2019 Roedd yr ysgol yn delio â mathau amrywiol o aflonyddwch gan AMR, yn gofyn i [athro am eu rhywioldeb], ac yn cyhuddo ei weithiwr allweddol o fod yn rhywiaethol, hiliol a homoffobig. Trefnwyd cyfarfod adolygiad brys ar gyfer 05/12/2019 gydag [aelod o deulu] AMR. Roedd y cyfarfod adolygu i fod yn aml-asantiaeth ol, gan gynnwys Heddlu Partneriaeth Gofal Cymdeithasol a Diogelwch Cymunedol (CSP).
- Gwnaed gwiriad gan [PC], CSP, [yr heddlu], ynglŷn ag atgyfeiriad MASH, ond ni ellid nodi unrhyw atgyfeiriad.
- Gwrthododd Heddlu CSP fynychu'r cyfarfod adolygu brys gan fod cyd-destun yr atgyfeiriad yn risg uwch nag y byddai CSP fel arfer yn delio ag ef, ac roedd hyn allan o'r cwrmpas i Heddlu CSP fynychu.

Sylw yr Adolygydd – cafwyd y wybodaeth hon o luniau sgrin o'r system PCMT. Ni chafwyd unrhyw sgwrs gyda'r athro fel rhan o'r adolygiad hwn.

Polisi a chanllawiau ar waith ar y pryd –

- Polisi CTPHQ ar gyfer Ymarferwyr Prevent V 2.1 Mehefin 2018.
- Llythyr ar y cyd a anfonwyd at y rhwydwaith Prevent ar 25/06/2019 ynghylch Ideoleg Gymysg, Aneglur, ac Ansefydlog. Gweler [Atodiad C](#).
- Canllawiau Dyletswydd Channel 2015 (gwreiddiol).
- [Polisi ar gudd-wybodaeth] – yn enwedig 'Atodiad B Prevent'.

Polisi – Ar adeg yr atgyfeiriad cyntaf, crynhowyd y meddwl ynglŷn â 'Saethwr ysgolion' / obsesiwn â chyflafan neu drais eithafol / torfol, mewn llythyr ar y cyd, dyddiedig 25/06/2019 gan Gyfarwyddwr Prevent y Swyddfa Gartref a Chydlynnydd Cenedlaethol CTP ar gyfer Prevent a anfonwyd at holl Gydlynwyr Prevent Rhanbarthol (RPCs) CTP, Cadeiryddion Channel, Cydlynwyr Prevent Addysg Uwch ac Addysg Bellach, Swyddogion Addysg Prevent (PEOs) a Chydlynwyr Prevent y GIG. Mae'r llythyr hwn yn cyfeirio at yr ideolegau Cymysg, Aneglur ac Ansefydlog ac yn disgrifio rhai senarios a allai syrthio i'r categori hwn neu a allai fod yn debyg neu'n gorgyffwrdd. Mae'r llythyr i'w weld yn [Atodiad C](#).

Pwynt dysgu A –

O destun yr atgyfeiriad, efallai bod gan AMR ddiddordeb arbennig gyda llofruddiaethau torfol. Roedd yn cynnal chwiliadau gan ddefnyddio rhyngrwyd yr ysgol ar saethu ysgol yn America, roedd yn siarad am dynnu gynnu a chwilio ar y rhyngrwyd am gynnu mewn gwers arall; cafodd hefyd ei glywed yn siarad â disgybl am wyllo fideos o bobl yn brifo eu hunain a gwneud sylw graffig am ddarn o ddril yn torri a lladd rhywun. Nid yw'n hysbys a oedd y swyngyfaredd arbennig hwn mewn saethu, trais ac anaf mewn ysgolion yn gyfystyr â diddordeb gan efallai nad yw'r diddordeb hwn wedi'i archwilio a'i ddeall yn llawn.

Mae detholiad perthnasol o'r llythyr yn manylu ar ba gategori o eithafiaeth Gymysg, Aneglur ac Ansefydlog y gall yr atgyfeiriad hwn ddisgyn iddo:

- ***i fod ag obsesiwn â chyflafan, neu drais eithafol neu dorfol, heb dargedu grŵp neilltuol yn benodol (e.e. 'saethu ysgol uwchradd')***

Byddai'n ymddangos felly o'r atgyfeiriad cychwynnol y gallai AMR syrthio i categori Cymysg, Aneglur neu Ansefydlog (MUU) oherwydd ei obsesiwn posibl â thrais torfol. Er nad oes unrhyw dystiolaeth wedi'i gyflwyno gan yr ysgol o yrrwr ideolegol am ei ymddygiad, ar y cam cynnar hwn byddwn yn disgrifio ei ideoleg fel 'aneglur'.

16/12/2019

Crëwyd cofnod PCMT.

Sylw yr adolygydd – mae'r cofnod hwn wedi'i chreu mewn modd amserol ac yn unol â'r Polisi ar gyfer Ymarferwyr Prevent 2018 ar y pryd.

17/12/2019

Trafodwyd yr achos yn y Cyfarfod Rheoli Dyddiol (DMM) a'i ddyrannu i swyddog a enwir.

Sylw yr adolygydd – Mae'r swyddog a enwir yn [CTCO o fewn Tîm Prevent Swydd Gaerhirfryn]. Ar gyfer cyd-destun cynhelir cyfarfod DMM bob dydd, dan gadeiryddiaeth uwch swyddog o CTP. Pwrpas y DMM yw adolygu'r holl wybodaeth barhaus a newydd, dyrannu adnoddau yn briodol a sicrhau bod yr adran gywir o fewn CTP yn cymryd perchnogaeth o'r achos.

17/12/2019

Cyfarfod strategaeth a gynhaliwyd ac a fynychwyd gan [y CTCO]. Hefyd yn bresennol roedd cynrychiolwyr o Gofal Cymdeithasol Plant, Iechyd Meddwl, Swyddog Ymchwilio o Heddlu Glannau Merswy, Gweithredu Cynnar yr Heddlu, Addysg a CTP Prevent.

Sylw yr adolygydd – Nid yw'r nodiadau achos yn PCMT yn cadarnhau pwy gynullodd y cyfarfod strategaeth. [Cedwir cofnodion y cyfarfod hwn gan asiantaeth arall a byddant yn cael eu hystyried yn drylwyr fel rhan o'r Adolygiad o Arfer Diogelu Plant]. Syrthiodd y cyfarfod strategaeth allan o gwmpas yr adolygiad cychwynnol hwn. Mae gwybodaeth am y cyfarfod wedi'i chymryd (wedi'i haralleirio isod) o nodiadau PCMT.

O'r cyfarfod hwn rhoddodd y Swyddog â Gofal (OIC) o Heddlu Glannau Merswy ddiweddariad ar ôl i AMR gael ei arestio am Ymosodiad (Adran 47 AOABH), a meddu ar gylllell ac arf ymosodol (ffon hoci). Rhoddodd yr OIC wybodaeth ynglŷn â chwiliadau AMR ar y rhyngrwyd oedd yn achosi pryder, a bod yr ymosodiad yn ymddangos i fod wedi'i gynllunio ymlaen llaw.

Sylw yr adolygydd – Nid yw'n glir a oedd y wybodaeth sy'n ymwneud â chwiliadau rhyngrwyd AMR yr un wybodaeth a roddwyd gan yr ysgol yn yr atgyfeiriad cychwynnol. Gofynnwyd am y chwiliadau rhyngrwyd y cyfeiriwyd atynt ond chawson nhw ddim eu darparu hyd yma.

Sylw yr adolygydd – Mae'r ymadrodd 'wedi'i gynllunio ymlaen llaw' wedi'i gofnodi ar y nodiadau o fewn PCMT. Nid yw'n hysbys a ddefnyddiwyd y term hwnnw gan yr OIC yn eu diweddariad neu gan y CTCO wrth gofnodi crynodeb o'r cyfarfod.

Cafodd AMR ei gyfweld yn ffurfiol ag oedolyn priodol yn bresennol ([aelod o'r teulu]) a chynrychiolaeth gyfreithiol. Mae gwybodaeth a roddwyd gan [aelod o deulu] AMR yn ystod y cyfweiliad yn awgrymu bod gan AMR 'rhestr daro' o 3 targed, 2 wryw a menyw anhysbys.

Darparwyd datganiad ysgrifenedig yn cyfaddef y troseddau o ymosodiad, meddiant o'r arf ymosodol (ffon hoci), meddiant o'r gyllell, ond gwadodd AMR gael mynediad at ddeunydd amhriodol trwy wefan yr ysgol. Dywedodd nad oedd ganddo unrhyw fwriad i ddefnyddio'r gyllell.

Sylw yr adolygydd – Mae'r wybodaeth am sylwadau a wnaed gan [aelod o deulu] AMR yn cael ei chofnodi ar y nodiadau o fewn PCMT fel rhan o'r crynodeb o'r cyfarfod strategaeth. Credir bod y nodiadau hyn yn rhan o'r diweddariadau a roddwyd gan yr OIC yn y cyfarfod.

Rhoddwyd mechnïaeth yr heddlu i AMR ar 12/12/2019, gydag amodau, er mwyn gwneud penderfyniad cyhuddo. Yr amodau oedd:

- Peidio â bod o fewn 400 metr i Ysgol Uwchradd Range, Formby, L37 2NY
- Peidio â chysylltu â 2 unigolyn a enwir (heb eu henwi yma)
- Peidio â mynychu 'The Acorn Centre', Ruff Lane, hyd nes y ceir cadarnhad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r awdurdod priodol.

Cafwyd rhagor o wybodaeth gan Heddlu Glannau Merswy yn datgan bod AMR wedi dweud ei fod yn bwriadu taro'r dioddefwr gyda'r ffon hoci a'i orffen gyda'r gyllell ac nad oedd yn poeni am y rhagolygon o fynd i'r carchar.

Sylwadau yr adolygydd – Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi o fewn nodiadau PCMT fel rhan o'r diweddariad gan yr OIC yn ystod y cyfarfod strategaeth lle roedd y CTCO yn bresennol. Mae'r sylw 'a'i orffen e' o bosibl yn groes i'w ddatganiad blaenorol a ddarparwyd yn ystod cyfweiliad yr heddlu, lle honnodd nad oedd yn bwriadu defnyddio'r gyllell. Nid yw wedi cael ei gofnodi pryd, ble ac i bwy y gwnaeth y sylw 'a'i orffen e'.

Yn dilyn gwaharddiad parhaol AMR o'r ysgol am gario cyllell er mwyn anafu cyd-fyfyrwyr (a chario cyllell ar 10 achlysur blaenorol), gwnaeth yr ysgol atgyfeiriad Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Rhoddwyd diweddariad gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl tra roedd AMR yn y ddalfa. Roedden nhw'n credu bod gan AMR Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASD – cyfeirir ato hefyd fel Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth – ASC).

Sylw yr adolygydd – Ni chysylltwyd â CAMHS fel rhan o'r adolygiad hwn gan ei fod wedi syrthio allan o'r cwrpas; nid yw union fanylion y diweddariadau yn hysbys i'r Adolygydd. Mae'r wybodaeth berthnasol uchod wedi'i chymryd o nodiadau PCMT ynghylch y cyfarfod strategaeth a gynhaliwyd.

Gwnaed apwyntiad Gwasanaethau Iechyd Meddwl Fforensig i Blant a Phobl Ifanc (FCAMHS) ar gyfer '21/01/2019' (credir ei fod yn 21/01/2020) ac roedd AMR ar restr aros ar gyfer asesiad ASD.

Rhoddwyd diweddariad gan y tîm Cymorth Cynnar. I grynhoi, fe wnaethon nhw gynghori bod AMR yn cael ei asesu a'i ymweld gartref. [Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag amgylchedd cartref AMR a'i berthynas gydag aelodau o'r teulu]. Roedd y Tîm Cymorth Cynnar yn teimlo bod gan AMR ASD oherwydd ei nodweddion personoliaeth. [Mae aelodau'r teulu yn mynychu gwasanaethau cymorth i raddau] ac mae AMR yn derbyn cwnsela bob pythefnos. Roedd Ymchwiliad Adran 47 cyfredol ar y gweill (plentyn mewn perygl o niwed sylweddol). Dim materion esgeulustod yn amlwg. Mae AMR mewn perygl o droseddu pellach ond yn anhysbys beth allai'r sbardunau fod. Roedd AMR yn cadw at ei amodau mechnïaeth.

Sylw yr adolygydd – Nid yw'r asesiad cymorth cynnar yn cael ei gofnodi o fewn PCMT, dim ond y diweddariad o'r cyfarfod strategaeth. Mae'r wybodaeth hon wedi syrthio allan o gwmpas yr adolygiad hwn ac mae wedi'i rhestru fel dilyniant posibl er mwyn deall cyfranogiad Cymorth Cynnar. Mae'n debygol bod yr asesiad cymorth cynnar a'r cymorth wedi dechrau cyn i Prevent ymwneud â hyn ond bydd angen gwirio hynny gan nad yw'n cael ei gofnodi o fewn PCMT. Nid yw pwy bynnag o Cymorth Cynnar oedd yn bresennol yn y cyfarfod strategaeth wedi cael ei gofnodi na phwy roddodd y diweddariadau chwaith.

Rhoddwyd gweithred i CTP Prevent ymweld â'r person dan sylw yr wythnos ganlynol.

Sylw yr adolygydd – Ni chofnodwyd pwrpas yr ymweliad hwn nac unrhyw ddiweddariadau cysylltiedig CTP Prevent ar y nodiadau o fewn PCMT o'r cyfarfod strategaeth.

18/12/2019

Cofnodwyd bod [CTCO] yn trefnu ymweliad ag AMR yr wythnos ganlynol.

20/12/2019

Asesiad FIMU – ychydig iawn a wyddom am AMR.

Mae'r nodiadau cychwynnol yn nodi PNC – Dim Yn Ymddangos

Sylw yr adolygydd – Mae'n ymddangos o'r nodiadau o fewn PCMT bod AMR wedi'i arestio am y cyhuddiadau ymosodiad ac arfau ar 11/12/2019 rhyw 5 – 6 diwrnod ar ôl atgyfeiriad Prevent. Mae hyn yn dangos cynnydd posibl yn ei lefelau risg ymddygiad. Gofynnwyd am asesiad llawn FIMU ond nid yw wedi'i ddarparu eto. Yn absenoldeb asesiad llawn FIMU, ni ellir canfod pryd y cynhaliwyd yr asesiad hwn. Fodd bynnag, gellir tybio bod asesiad FIMU wedi digwydd rhwng yr atgyfeiriad cychwynnol a dyddiad y cofnod ar y nodiadau.

Sylw polisi – Mae asesiad FIMU wedi'i gwblhau yn unol â'r polisi ar asesiadau ar y pryd ac wedi cael ei gynnal mewn modd amserol.

Pwynt dysgu B – Nid yw'n glir a ddarparodd y FIMU fanylion llawn o'r holl ymchwil ac asesiadau a gynhaliwyd ganddynt i CTP Prevent.

Polisi/Canllawiau – Roedd yr ymchwil a'r asesiad hwn yn rhan o safonau gofynnol ar gyfer FIMUs a nodwyd yn y [polisi ar gudd-wybodaeth] ac yn cynnwys canlyniadau'r gwiriadau canlynol. Mae rhai FIMUs yn cwblhau mwy o wiriadau, ond dyma'r safonau gofynnol:

- [System cudd-wybodaeth CT Heddlu]
- Systemau Cudd-wybodaeth a throddedu lleol
- Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC)
- Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu (PND)
- [Systemau eraill yr Heddlu]

Mae'r Polisi ar gyfer Ymarferwyr Prevent a'r canllawiau [polisi ar gudd-wybodaeth] Atodiad B i gyd yn cyfeirio at yr angen i Prevent gynnig adborth i'r FIMUs (y cylch cudd-wybodaeth) ond nid ydynt yn sôn am yr hyn y dylai'r FIMU ei fwydo i dimau Prevent.

Cais am ddogfen – Gofynnwyd am ganllawiau [polisi ar gudd-wybodaeth] sy'n cwmpasu 2019 ond nid ydynt wedi'u darparu. Mae Atodiad B o'r canllawiau [polisi ar gudd-wybodaeth] wedi'i rannu gyda'r Adolygydd yn ogystal â'r diffiniad o berthnasedd CT.

Sylw yr adolygydd – Gan nad yw'r canllawiau [polisi ar gudd-wybodaeth] yn ddogfen sy'n eiddo i CTPHQ, efallai y bydd angen gofyn am ganiatâd gan y perchennog cyn y gellir ei rannu. Wedi'u hymgorffori yn y canllawiau [polisi ar gudd-wybodaeth] mae diffiniadau a pholisi ynghylch y term 'CT/DE perthnasol' a pholisi ynghylch safonau gofynnol, a gwneud penderfyniadau o fewn y FIMU. Nid yw wedi bod yn bosibl craffu ar bolisi FIMU i sefydlu a oedd gofyniad i rannu canfyddiadau asesiadau FIMU gyda rhanddeiliaid allweddol fel CTP Prevent.

Argymhelliad 1 – Argymhellir bod cynnyrch rhannu gwybodaeth safonol yn cael ei ystyried i'w ddefnyddio yn genedlaethol gan bob FIMU wrth rannu canlyniadau gwiriadau a gynhaliwyd ar gyfer Prevent. Dylai'r cynnyrch hwn gael ei gytuno'n genedlaethol, ei ddefnydd yn orfodol a'i ysgrifennu yn [y polisi ar gudd-wybodaeth"].

20/12/2019

ASESIAD PORTH – symudwyd yr achos o Asesiad Porth i PLP.

Sylw yr adolygydd – Y rhesymeg a nodir ar y nodiadau o fewn PCMT dros symud i PLP yw i ymweliad gael ei gynnal gyda'r unigolyn i gynnal asesiad risg a phenderfynu ar y ffordd briodol o weithredu. Mae hyn wedi'i gofnodi yn yr adran 'hanes' o fewn PCMT ar gyfer yr achos.

Pwynt Dysgu C – Yn 2019 y polisi ynglŷn ag ymweliadau ag unigolion, o gofio bod Cynllun Peilot Dovetail¹ yn cael ei gynnal yn y CTPNW, oedd y dylid cyfyngu ymweliadau ag unigolion a pheidio â'u cynnal oni bai eu bod yn eithriad. Mae hyn yn rhoi'r heddlu mewn sefyllfa heriol wrth asesu unigolion heb y cyfle i siarad yn uniongyrchol â nhw ynglŷn â chynnwys atgyfeiriad. Roedd angen ymweliad yn yr achos hwn gan fod cyn lleied yn hysbys am AMR ac ideoleg yn anhysbys. Mae'r heddlu wedi nodi, er mwyn cyflawni'r ymweliad, bod yr atgyfeiriad wedi'i symud i PLP. Mae hyn yn ymddangos yn ddiangen gan fod y polisi yn caniatáu i ymweliadau ddigwydd yn ystod y broses PGA os yw'n briodol a thrwy eithriad.

Nid yw'r pwynt dysgu hwn yn ymwneud â p'un a ddigwyddodd ymweliad, ond ynglŷn â'r gallu i gynnal ymweliadau ag unigolion heb deimlo'r angen i symud atgyfeiriad i PLP i alluogi hyn.

Argymhelliad 2 – Dylid ystyried hyfforddiant pellach ynghylch yr amgylchiadau lle gellir cynnal ymweliadau ag unigolion yn ystod yr asesiad cychwynnol. Mae'r polisi yn 2019 ac ar hyn o bryd yn parhau i fod yn un sy'n caniatáu ymweld trwy eithriad, a gallai hyn wneud i'r swyddogion sy'n cynnal yr asesiad deimlo'n gyfyngedig ar y cam hwn o'r broses. Gall adolygiad o sut mae hyn wedi'i fframio ym mholisi CTCO ynghyd â hyfforddiant pellach helpu CTCOs o ran y penderfyniad i ymweld ag unigolyn yn y cam asesu cychwynnol, heb yr angen i symud ymlaen â'r atgyfeiriad i PLP i gyflawni hyn.

Polisi – Mae Polisi ar gyfer Ymarferwyr Prevent 2018 yn cwmpasu ymweliadau yn ystod y cyfnod PGA. Mae'n nodi na ddylai ymweliadau fod yn angenrheidiol ond nid yw'n eu gwahardd. Mae hefyd yn nodi y dylai CTCOs ystyried y person gorau i gynnal yr ymweliad hwn (gwasanaeth partner) neu ymweliad cyfunol â gwasanaeth partner. Roedd y CTCO yn cydymffurfio â'r polisi wrth gynnal yr ymweliad ar yr adeg hon. Mae Canllawiau CTCO cyfredol ar unigolion sy'n ymweld yn aros yr un fath â 2018 ac mae hynny drwy eithriad yn unig.

Sylw yr adolygydd– Mae'r troednodyn yn grynodedig o'r peilot Dovetail a ddarperir gan y Swyddfa Gartref ar gyfer cyd-destun. Ysgrifennwyd polisi a chanllawiau Dovetail ar y pryd gan y Swyddfa Gartref a CTPHQ. Ni newidiodd Peilot Dovetail y broses Prevent ar gyfer rheoli atgyfeiriadau, dim ond y sefydliad sy'n gyfrifol am elfennau o'r broses. Cadwodd CTP Prevent gyfrifoldeb am yr asesiad cychwynnol ac os mai Channel oedd yr opsiwn a ddewiswyd, trosglwyddwyd yr atgyfeiriad i Gydlynnydd Channel pwrpasol o fewn yr Awdurdod Lleol i barhau â'r broses.

23/12/2019

Asesiad Porth yr Heddlu (PGA) –

¹ Dovetail yw'r term cyfunol a ddefnyddir i gwmpasu treialu swyddogaeth rheoli achosion Channel gan awdurdodau lleol (rhwng 2016– 2024), a ymglymerir fel arfer gan blismona Gwrthderfysgaeth (CTP). Cyflwynwyd safleoedd awdurdodau lleol dynodedig (sengl) yn 2016, gyda safle rhanbarthol Gogledd Orllewin (sy'n rhychwantu rhanbarth NWCTU) wedi'i gyflwyno yn 2019. Ymestynnodd Deddf

Gwrthderfysgaeth a Diogelwch Ffiniau 2019 ddarpariaeth i awdurdodau lleol a ddynodwyd gan y Swyddfa Gartref i wneud penderfyniad adran 36; fodd bynnag, cadwyd y swyddogaeth Asesu Porth Prevent yn ardaloedd Dovetail gan CTP yn unol ag arfer cenedlaethol.

Cafodd anghenion cymhleth eu nodi ac mae yna atgyfeiriad i'r Hyb Cymorth Bregusrwydd (VSH) i'w gyflwyno.

Cwynion Dywedodd PGA nad oedd unrhyw gwynion.

Sylw yr adolygydd – mae'n amlwg o nodiadau blaenorol ar PCMT bod naratifau cwyno yn bodoli ynghylch bwllo o ysgol flaenorol AMR, a gallai'r rhain fod yn gyrru ei ymddygiad. Mae'r PGA yn nodi bod angen archwilio cwynion yn ystod yr ymweliad ag AMR.

Pwynt dysgu D – Cwynion yw un o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol sy'n ysgogi denu meddyliau unigolyn tuag at drais. Nid yw presenoldeb cwynion AMR wedi'i grybwyll yn y PGA ac o ganlyniad efallai y bydd ffactor ysgogol posibl wedi cael ei anwybyddu.

Argymhelliad 3 – Dylid ystyried adolygiad o'r hyfforddiant cyfredol ar gyfer goruchwylwyr i gryfhau, wrth lofnodi asesiadau fel rhai cyflawn, bod yr holl ffactorau ymddygiadol a chymhellion ar gyfer ymddygiadau wedi'u cofnodi ar yr asesiadau, p'un a ystyrir eu bod yn berthnasol ai peidio. Nid yw asesiadau cyfredol yn cynnwys elfen 'perthnasedd' Prevent ar gyfer ffactorau. Mae'r Fframwaith Asesu Prevent (PAF) newydd sydd i fod i fynd yn fyw ym mis Medi 2024 yn mynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â pherthnasedd Prevent ar gyfer pob un o'r ffactorau sensitifrwydd.

Ymgysylltu – gall ASD heb ei ddiagnosisio ychwanegu at fregusrwydd AMR i ymgysylltu ag eithafiaeth neu faterion sy'n gysylltiedig â CT.

Ideoleg – mae AMR wedi bod yn ymchwilio i saethu ysgolion, wedi bod yn siarad am drywanu pobl a bod yr ymosodiad terfysgol ar y MEN yn beth da. Ar hyn o bryd nid yw'n glir a oes ganddo ideoleg.

Unigolion Grwpiau Sefydliadau – dim tystiolaeth o AMR yn ymwneud ag unrhyw grwpiau achosion neu ideoleg.

Galluoedd – mae AMR wedi cael mynediad at arfau ac wedi cyflawni ymosodiad felly mae ganddo rai galluoedd treisgar.

Bwriad – mae gan yr unigolyn fwriad i niweidio pobl sydd wedi ei fwlio ond nid oes tystiolaeth bod y bwllo hwnnw wedi digwydd. Mae ganddo restr taro o bobl y mae'n dymuno gwneud niwed iddynt sydd heb ei gadarnhau ac yn dangos 'casineb' tuag at [aelod o'r teulu] a'r rhai ar ei restr.

Cyfle – mae AMR eisoes wedi mynychu ei ysgol flaenorol er mwyn ymosod ar rai unigolion.

Rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol – Atafaelwyd dyfeisiau AMR gan yr heddlu a byddant yn cael eu harchwilio.

Sylw yr adolygydd – Mae dyfeisiau a atafaelwyd fel rhan o ymchwiliad yn cael eu harchwilio gan dimau arbenigol o fewn yr heddlu lle mae'r ymchwiliad yn digwydd. Nid yw wedi'i gofnodi o fewn PCMT bod canlyniadau'r archwiliad hwn wedi'u ceisio na'u rhannu gyda Prevent.

Pwynt dysgu E – Nid yw'n glir o'r nodiadau PCMT a gafodd dyfeisiau AMR eu harchwilio wedyn. Nid yw wedi'i gofnodi 1) a gafodd yr archwiliad ei gwblhau a 2) a rannwyd canlyniadau gyda Heddlu Prevent. Nid yw'n glir ychwaith a wnaed ymdrechion i gael hanes chwiliadau AMR o'r ysgol, ei ysgol flaenorol y cafodd ei heithrio ohoni, neu ei gartref (gyda chaniatâd rhieni) neu os cynhaliwyd ymchwil ffynhonnell agored ar y cam hwn.

Polisi – Yn 2019, nid oedd polisi Ymarferwyr Prevent CTP mor ragnodol â'r canllawiau CTCO cyfredol. Nid yw sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chasglu mewn perthynas â chwiliadau neu ymholiadau ar y rhyngwrdd yn cael ei grybwyll yn benodol.

Mae canllawiau CTCO cyfredol yn disgrifio lefel o chwilfrydedd proffesiynol wrth gynnal y cam PGA ac yn cyfeirio at wybodaeth gadarnhau lle bynnag y bo modd, sy'n cynnwys gwiriadau ffynhonnell agored ond nid yw'n sôn yn benodol am hanes chwilio ar y rhyngwrdd.

Argymhelliad 4 – Ystyriwch a ellid cryfhau canllawiau CTCO lle mae defnydd o'r rhyngwrdd / hanes chwilio neu weithgaredd ar-lein arall yn berthnasol. Gallai hyn sicrhau bod CTCOs yn rhagweithiol wrth gael a chofnodi canlyniadau chwilio ar y rhyngwrdd er mwyn asesu'r atgyfeiriad yn ddigonol a gwneud yn siŵr nad yw'r wybodaeth yn parhau i fod yn anhysbys. Fodd bynnag, bydd angen cydbwysu hyn yn erbyn galluoedd cyfyngedig i'r heddlu gynnal gwyliadwriaeth ymwithol o fewn y broses Prevent. Dylid ystyried gorfodi ymchwil ffynhonnell agored yn asesiad cychwynnol y PGA.

Teithio amheus – dim tystiolaeth o deithio amheus.

Adeiladau – dim tystiolaeth bod AMR yn ymweld ag adeiladau amheus sy'n gysylltiedig ag eithafwyr.

Cynnydd mewn ymddygiad sylfaenol – mae tystiolaeth yn dangos bod cynnydd yn ymddygiad AMR ar ôl iddo fynd i'w ysgol flaenorol ac ymosod ar ddisgybl arall.

Mobileiddio tuag at orffen – mae AMR yn dod yn fwy treisgar ac ymosodol oherwydd iddo fynd i'w hen ysgol ac ymosod ar ddisgybl.

Argymhelliad CTCO – PLP. Mae'r rhesymeg dros hyn yn cael ei gofnodi fel caniatáu i ymweliad Prevent ddigwydd er mwyn penderfynu a oes ideoleg CT/DE ac i asesu unrhyw wendidau pellach neu bryderon diogelu a rhoi'r gefnogaeth briodol ar waith. Gwnaed atgyfeiriad hefyd i'r Hyb Cymorth Bregusrwydd (VSH), gyda Prevent i fynychu'r cyfarfod strategaeth nesaf ar 06/01/2020.

Sylw yr adolygydd – Mae'r sylwadau uchod o'r argymhelliad i symud yr achos i PLP wedi'u crynhoi gan yr Adolygydd a gellir dod o hyd iddynt ar y nodiadau o fewn PCMT.

Sylw yr adolygydd – Cysylltwyd â VSH ac mae'n ymddangos nad oedd unrhyw atgyfeiriad VSH wedi'i dderbyn. Nid yw'n hysbys os y gwnaed un ond heb ei dderbyn, neu na wnaed un.

Argymhellion Goruchwyliwr CTCO – Cytuno ag argymhellion CTCO ar gyfer PLP fel yr opsiwn a ffeirir ac yn nodi bod diogelwch a gwendidau i'w datrys, yn enwedig yr ymchwiliad parhaus a'i fregusrwydd i radicaleiddio.

Sylw yr adolygydd – Mae argymhellion Goruchwyliwr CTCO uchod yn grynodeb o'r

sylwadau ac nid trawsgrifiad. Gellir dod o hyd i'r union sylwadau ar y nodyn o fewn PCMT.

Polisi – Mae'r Polisi ar gyfer Ymarferwyr Prevent 2018 yn sôn am yr hybiau lechyd Meddwl a dylid ystyried atgyfeiriad i'r hyb lle bo hynny'n briodol. Ailenwyd yr hybiau iechyd meddwl ar ryw adeg ar ôl y polisi hwn a chyn canllawiau CTCO 2020 fel Hybiau Cymorth Bregusrwydd. Yn y canllawiau 2020, mae'n cyfeirio at y VSH fel un sy'n esblygu ac mae proses genedlaethol safonol yn cael ei datblygu.

Yn 2019 roedd gan y PGA 3 opsiwn i'w cwblhau

- Dan arweiniad aml-asiantaeth(Channel)
- Arweinir gan yr heddlu
- Cloi

Pwynt dysgu F – yn yr achos hwn roedd nifer o ffactorau yn bresennol i fod â phryderon ynghylch AMR a'i fregusrwydd posibl i gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth. Mae'n bosibl bod ymchwilio i saethu ysgolion, siarad am drywanu pobl, gan ddweud bod yr ymosodiad terfysgol ar y 'MEN' yn beth da, wedi dangos diddordeb gwirioneddol mewn derfysgaeth. Mae'n debyg bod 'MEN' yn cyfeirio at ymosodiad Arena Manceinion yn 2017. Roedd arena Manceinion yn cael ei hadnabod fel Arena 'MEN' rhwng 1998 a 2011. Y cwestiwn ar y pryd i'r CTCO oedd ystyried a oedd AMR yn ymgysylltu â grŵp, achos neu ideoleg a beth mae hyn yn ei olygu o ystyried bregusrwydd, anghenion ac ymddygiadau cymhleth AMR. Dewisodd y CTCO symud yr achos i PLP ar yr achlysur hwn.

Barn yr Adolygydd yw bod digon o wybodaeth i gyfeirio'r achos hwn at Channel, yn enwedig o ystyried oedran ac anghenion cymhleth AMR. Roedd ei ymgysylltiad ag ideoleg yn anhysbys a dylai'r gwaith hwn fod wedi cael ei wneud o dan ymbarél Channel a chyfeirio'r achos at Gydlynnydd Channel Dovetail i gwblhau'r casglu gwybodaeth aml-asiantaeth. Byddai hyn wedi caniatáu i'r bartneriaeth aml-asiantaeth ymgynnull i drafod yr achos yng hyd-destun bregusrwydd AMR i gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth.

Mae cynnal yr achos yn PLP yn dangos bod y CTCO a'r goruchwylwyr yn credu bod digon o bryderon Prevent i beidio â dewis y llwybr cau – byddai'r Adolygydd yn cytuno â hyn. Oherwydd yr oedran a'r anghenion cymhleth, byddai'n ymddangos mai Channel yw'r opsiwn mwy priodol dros PLP. Mae'r PGA yn amlwg yn mynegi ystod o bryderon a fyddai'n ychwanegu at fregusrwydd unigolyn i gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth, ac felly ni fyddai cau yn opsiwn ar hyn o bryd.

Argymhelliad 5 – Dylid ystyried polisi a chanllawiau lle dylid cyfeirio atgyfeiriadau sy'n ymwneud â phlant a / neu anghenion cymhleth yn rheolaidd at Channel oni bai mai cau ar unwaith yw'r opsiwn a ddewiswyd, neu bod y risgiau CT yn cael eu hystyried yn rhy uchel i Channel.

Nodyn polisi – Mae gan ganllawiau CTCO 2020 newid yn y broses lle mae opsiynau yn y cam asesu cychwynnol wedi'u symleiddio. Yn 2019 roedd y canllawiau yn nodi bod 3 opsiwn o'r cam asesu cychwynnol i) Cau ii) Aml-asiantaeth dan arweiniad iii) Arweiniad gan yr heddlu. Mae canllawiau CTCO 2020 wedi symleiddio hyn i 2 opsiwn i) Cau ii) Casglu gwybodaeth aml-asiantaeth .

Polisiâu sydd ar waith ar hyn o bryd –

- Polisi ar gyfer Ymarferwyr Prevent 2018
- Canllawiau Gweithredol Heddlu Dovetail 2016
- Cynllun Peilot Hwb Rhanbarthol Channel Dovetail 2018

Pwynt dysgu G – Mae sicrwydd busnes a hyder yn y broses yn gofyn i'r craffu annibynnol perthnasol fod ar waith. Ar hyn o bryd yr Heddlu yw'r unig dderbynwyr ar gyfer atgyfeiriadau Prevent mewn sawl ardal o'r wlad, yr unig un sy'n gwneud penderfyniadau ar y cam cynnar hwn o'r broses, ac mae ganddynt unig fynediad i'r system gofnodi (PCMT). Mae gan y Swyddfa Gartref swyddogaeth sicrhau ansawdd i oruchwylio cyflenwi Prevent. Mae'n bwysig bod craffu yn cael ei gymhwyso i bob maes o gyflenwi Prevent i fonitro cydymffurfiaeth, deall y persbectif cenedlaethol ar bob elfen o gyflenwi Prevent, a galluogi astudiaethau i gael eu cynnal lle mae digwyddiadau wedi dangos bylchau yn ymarferol fel y gellir datblygu polisi a chanllawiau. Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Gartref fel perchnogion strategaeth Prevent wedi dewis mynediad cyfyngedig i ardaloedd penodol ar y PCMT. Bydd y polisi atgyfeirio lluosog a gyflwynwyd yn 2023 yn cryfhau sut y gwelir atgyfeiriadau lluosog gan CTCOs, ond byddai'r trefniant presennol ar gyfer cael mynediad i'r system yn atal y Swyddfa Gartref rhag dadansoddi hyn yn uniongyrchol.

Argymhelliad 6 – Mae mynediad llawn i'r system PCMT bresennol wedi'i gyfyngu i'r heddlu yn unig. Er bod gan y Swyddfa Gartref fynediad cyfyngedig, dylid adolygu hyn, gan alluogi craffu ar bob lefel o gyflenwi Prevent fel rhan o brosesau sicrhau ansawdd a busnes. Bydd y mynediad hwn yn galluogi i astudiaethau o bob rhan o'r broses gael eu cynnal a fydd yn llywio newidiadau mewn polisi a chanllawiau ac yn gallu dal rhanddeiliaid allweddol i gyfrif.

Pwynt dysgu H – Roedd amserlenni ar gyfer cwblhau'r PGA yn fater dibwys ar gyfer yr atgyfeiriad cyntaf. O'r dyddiad y derbyniwyd yr achos gan Prevent (DMM 17/12/2019) roedd gan y CTCO 5 diwrnod gwaith i gynnal yr asesiad PGA. Yn yr achos hw, mae'n debyg bod yr amser a gymerwyd i gwblhau'r asesiad wedi gostwng ychydig y tu allan i'r amserlen gan fod copi o'r asesiad PGA wedi'i lanlwytho i'r PCMT ar 23/12/2019 (6 diwrnod). Nid wyf wedi gallu cael y copi gwreiddiol o'r ddogfennaeth PGA i benderfynu ar yr union ddyddiad y cafodd hyn ei ysgrifennu.

23/12/2019

Goruchwylwyr tasgau ac adolygu wedi'i gofnodi sy'n gopi uniongyrchol o sylwadau'r goruchwyliwr PGA wedi'i ddyddio yr un diwrnod â'r PGA.

Pwynt dysgu I – Wrth wneud cofnodion newydd ar y system PCMT, nid yw copïo a gludo sylwadau blaenorol ar gyfer sylw newydd yn arfer gorau. Mae'r arfer hwn wedi cael ei ddefnyddio ar sawl achlysur yn ystod yr achos hwn.

Argymhelliad 7 – Dylai pob sylw newydd ar PCMT fod yn unigryw gan ddangos bod y swyddog wedi ystyried eu barn eto. Os nad oes gwybodaeth newydd neu ddim diweddariadau pellach, yna dylid mynegi hyn yn hytrach na chopio cofnod blaenorol.

31/12/2019

Mae nodyn asesu risg a gofnodwyd yn PCMT fel gwybodaeth atodol am achosion yn manylu ar ragofalon sydd i'w cymryd gan swyddogion oherwydd y risg o arfau. Wedi'i gynnwys yn y nodyn mae canlyniadau [system cudd-wybodaeth Heddlu CT], a oedd yn datgan 'dim wedi'u holrhain'. Cofnodwyd hefyd adnewyddiad o chwiliad cyfrifiadurol cenedlaethol yr Heddlu (PNC) a oedd bellach yn dangos ei hanes arestio blaenorol ers yr atgyfeiriad.

Sylw yr adolygydd - Nid yw'n hysbys a roddwyd gwybodaeth ar system cudd-wybodaeth[Heddlu CT] a phryd. Mae'n bosibl, gan fod yr achos hwn wedi'i asesu gan y FIMU fel [canlyniad asesiad risg dim perthnasedd CT / DE] yna ni chafodd unrhyw gofnod ei greu ar [system gudd-wybodaeth Heddlu CT] ar gyfer yr atgyfeiriad er gwaethaf bod asesiad FIMU wedi'i gynnal. Bydd angen gwirio hyn gyda'r FIMU.

31/12/2019

Ymwelodd dau CTCO â chyfeiriad AMR. Gofynnodd [aelod o'r teulu] AMR iddyn nhw ddychwelyd ar 03/01/2020 gan fod yr [aelod o'r teulu] yn weithiwr shiftt ac ar y pryd yn gweithio shiftt nos.

Sylw yr adolygydd – ni chofnodwyd gan y CTCO a oedd AMR yn bresennol ar y pryd neu a oedd y swyddogion yn siarad â [aelod o'r teulu] AMR yn unig.

03/01/2020

Cynhaliwyd ymweliad gan ddau CTCO ac [aelod o'r teulu] AMR hefyd yn bresennol. Gofynnwyd i AMR am ei chwiliadau ar-lein yn yr ysgol. Roedd AMR yn meddwl bod hyn wedi'i dynnu allan o'i gyd-destun a dywedodd fod ganddo ddiddordeb mewn erthygl newyddion ac wedi ei arwain i'r dudalen trwy ddolen. Dywedodd ei fod wedi chwilio am arf 'Num chucks' (Nun Chaku yn ôl pob tebyg, sef ffyn ymosod Japaneaidd sy'n arf ymosodol yn y DU) fel rhan o ymchwil ar gyfer gwers ar 'adeiladu pethau'. Roedd hefyd yn ymddangos yn ddigalon bod hyn wedi cael ei gofnodi gan yr ysgol ac roedd yn teimlo ei fod yn cael ei erlid gan ei athrawon a oedd yn ceisio ei gael i drafferthion. Dywedodd ei fod yn casáu bod yn yr ysgol ac nad oedd yn hoffi unrhyw un o'i athrawon am eu bod nhw'n pigo arno. Gofynnwyd iddo ynghylch cario'r arfau i'r ysgol a dywedodd fod hyn o ganlyniad i gael ei fwlio. [Cafwyd trafodaeth am berthynas AMR ag aelod arall o'r teulu]. Nid oedd AMR yn arddangos unrhyw safbwyntiau nac ideoleg eithafol: roedd y trais wedi'i gyfeirio tuag at y bobl a oedd wedi bod yn ei fwlio.

Sylw yr adolygydd – uchod mae crynodeb o'r cofnod ar PCMT dyddiedig 06/01/2020 ac mae'n disgrifio'r sgwrs a gynhaliwyd rhwng AMR a'r swyddogion pan ymwelon nhw ar 03/01/2020. Gellir gweld y cofnod PCMT yn llawn os oes angen.

Pwynt dysgu J – Rhoddodd AMR eglurhad am ei chwiliadau rhyngwyd i swyddogion nad oedd ganddynt hygyrdded. Roedd angen gwirio'r eglurhad hwn gan y gallai fod yn arwydd o ffugio cydymffurfiaeth.

06/01/2020

Cyfarfod strategaeth a fynychwyd gan swyddog achos CTCO. Mae'r nodiadau'n darllen:

Mae AMR wedi cael ei asesiad CAMHS cyntaf a gadarnhaodd nad oes yna unrhyw salwch iechyd meddwl, ond roedd Awtistiaeth yn amlwg. Nid oedd AMR yn gallu dychwelyd i'r ysgol ac mae angen ystyried darpariaeth addysgol amgen. Mae'r ysgol yn teimlo y byddai disgyblion ac athrawon mewn perygl heb yr asesiadau risg cywir ar waith. Ceir pryderon bod AMR wedi gwneud sylwadau blaenorol ynglŷn â llofruddio athrawon ac arddangos casineb eithafol. Gofal cymdeithasol i gynnal asesiad parhaus a gwneud cais am Asesiad Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SEND). Nid oes gofyniad pellach ar gyfer ymchwiliad Adran 47 gan ofal cymdeithasol gan fod yr holl asiantaethau perthnasol ar waith. Nid oes unrhyw benderfyniad cyhuddo eto ynglŷn â'r ymosodiad ac mae dyfeisiau AMR yn dal i gael eu harchwilio. Nid yw hanes chwilio'r rhyngwrwyd wedi'i ddarparu eto.

Sylw yr adolygydd – Mae'n bosibl mai'r cyfarfod strategaeth hwn yw'r ail un a drefnwyd [y mynychodd y CTCO, a fydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r Adolygiad o Arfer Diogelu Plant.] Mae wedi ei gofnodi fel cyfarfod strategaeth o fewn PCMT. Mae nodiadau cyfarfod wedi'u cofnodi ar yr un diwrnod ag y cynhaliwyd y cyfarfod sy'n arfer da. Ar y pwynt hwn ceir sôn am y wybodaeth a gynhwysir ar ddyfeisiau AMR a hanes chwilio rhyngwrwyd o'r ysgol. Ni chofnodwyd unrhyw beth i ddweud bod y canlyniadau chwilio hyn wedi'u rhoi i Prevent.

08/01/2020

Mae cofnod ar PCMT yn nodi bod y FIMU wedi asesu y gellir cau'r achos i Prevent gan nad oes unrhyw bryderon CT / DE ac mae'r holl asiantaethau perthnasol yn eu lle.

Pwynt dysgu K – Mae angen i gylch gorchwyl y FIMU fod yn glir i sicrhau nad yw'r aseswr FIMU yn gwyro i diriogaeth rheoli Achosion. [Fy nealltwriaeth o rôl FIMU yw swyddogaeth rheoli Cudd-wybodaeth.] Unwaith y bydd achos wedi'i basio i Prevent yna mae'n rhaid i Prevent benderfynu cau ac nid y FIMU, [ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol]. Mae risg, os yw FIMU yn asesu y gall Prevent gau'r atgyfeiriad/achos, yna gall hyn ddylanwadu ar Prevent i gau yn gynamserol cyn mynd trwy broses briodol. [Y polisi ar gudd-wybodaeth] Mae 'Atodiad B' yn ymdrin â sut y dylid trin cudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â Prevent. Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at y gall timau Prevent ystyried asesiad FIMU [o ganlyniad asesu risg, dim perthnasedd CT/DE] fel perthnasol CT/DE ac yn dod yn achos Prevent.

Argymhelliad 8 – Dylid ystyried bod Atodiad B yn cael ei ymgorffori yn [y polisi ar gudd-wybodaeth] ac nid eistedd fel atodiad. Dylai'r polisi fod yn glir ei bod i Prevent benderfynu cau unwaith y bydd yr atgyfeiriad wedi'i drosglwyddo i Prevent ar gyfer gweithredu ac asesiad cychwynnol. Dylid gwneud yn glir y dylai FIMU ymatal rhag awgrymu deilliannau Prevent gan y gallai hyn ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan CTCOs neu gefnogi cau cynamserol gan Prevent.

Pwynt dysgu L – Defnyddir y term 'perthnasedd neu bryder CT/DE' droeon gydol yr holl atgyfeiriadau Prevent sy'n ymwneud ag AMR. Defnyddir y term yn yr IMU's i ddisgrifio a ddylid cofnodi darn o gudd-wybodaeth ar system gyfrifiadurol [cudd-wybodaeth Heddlu CT] ai peidio. Mae hyn er mwyn osgoi gor-faich ar y system; mae'r penderfyniad ar gyfer hyn yn oddrychol ac yn eistedd gydag aseswr IMU. Bydd gan bob aseswr bersbectif ychydig yn wahanol ar yr hyn maen nhw'n meddwl sy'n berthnasol i CT / DE. Gellir drysu'r term yn gyffredin gydag ystyr mwy llythrennol yr ymadrodd h.y. nad oes 'Perthnasedd Gwrthderfysgaeth' i'r atgyfeiriad / achos. Yn yr achos hwn, defnyddiwyd [canlyniad yr asesiad risg heb berthnasedd CT/DE] o fewn cyd-destun Prevent a'i ddefnyddio i gefnogi gwneud penderfyniadau lle gallai'r ystyr fod wedi'i gamddehongli gan y CTCO. Disodlwyd y term hwn yn fwy diweddar gan 'CTP perthnasol'.

Argymhelliad 9 (i) – Ystyriwch newid terminoleg yn rheoli Prevent. Dylid disodli'r term CTP Perthnasol gyda 'Perthnasol i Prevent'. Mae hyn yn ei wahaniaethu oddi wrth y term a ddefnyddir yn yr IMU a allai fod ag ystyr ychydig yn wahanol.

Argymhelliad 9(ii) – Ar hyn o bryd mae atgyfeiriadau Prevent yn cael eu hasesu [o dan ganlyniadau asesu risg cyffredinol] gan yr FIMUs. Dylid ystyried Prevent yn cael ei ganlyniad [asesiad risg] ei hun yn benodol sydd wedi'i ddiffinio'n glir mewn polisi. Mae'r canllawiau CTCO cyfredol ynghyd â chanllawiau Atodiad B [y polisi ar gudd-wybodaeth] yn diffinio rolau CTP Prevent.

Argymhelliad 9(iii) – [Y polisi ar gudd-wybodaeth] Mae Atodiad B yn ymddangos ychydig yn ddyddiedig a dylid ystyried adolygiad / adnewyddu. E.e. mae'r canllawiau yn cyfeirio at bwrpas Prevent fel 'amddiffyn pobl agored i niwed rhag cael eu tynnu i derfysgaeth' nad yw'n derm cywir i ddisgrifio Prevent.

Argymhellion 9(iv) – Dylid adolygu hyfforddiant ar gyfer staff FIMU ar Prevent i sicrhau dealltwriaeth gyfredol lawn o ddarparu Prevent ac adnewyddu hyfforddiant rheolaidd fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Lle ystyrir bod hyfforddiant yn annigonol, yna mae'r cyrsiau priodol yn cael eu hadeiladu a'u cyflwyno.

Dylid adolygu Argymhelliad 9(v) – Dylid adolygu hyfforddiant ar gyfer staff Prevent ar ganllawiau [y polisi ar gudd-wybodaeth] a chyflenwi FIMU a phan nodir bod hyfforddiant yn annigonol, creu'r cyrsiau priodol a'u cyflwyno, a gloywi hyfforddiant yn rheolaidd.

15/01/2020

Symudodd yr achos o PLP i 'Aros i'w Gau'. Rhesymeg a roddwyd: dim pryderon CT/DE. Mae gwendidau clir sydd angen cefnogaeth ond mae asiantaethau eisoes ar waith. Bydd yr achos yn cael ei gau hyd nes bod unrhyw wybodaeth bellach o'r dyfeisiau neu hanes chwilio rhyngrwyd neu ailgyfeirio.

Sylw yr adolygydd – Mae'r termau CT/DE perthnasol a phryderon CT/DE o bosibl wedi cael eu defnyddio'n gyfnewidiol gan swyddogion sy'n cofnodi gwybodaeth ar PCMT. Er bod gan berthnasedd CT/DE ystyr arbennig o fewn y FIMU, nid yw'r term pryder CT/DE wedi'i ddiffinio mewn polisi ond fe'i defnyddir yn aml. Roedd siarad yn uniongyrchol â swyddogion wedi syrthio allan o gwmpas yr adolygiad hwn felly nid yw'n hysbys beth oedd dealltwriaeth y swyddogion o'r termau hyn.

Pwynt dysgu M Barn yr Adolygydd yw bod cau ar y pwynt hwn yn gynamserol gan fod rhywfaint o wybodaeth allweddol nad oedd yn hysbys eto ynglŷn â'r hyn a gadwid ar ei ddyfeisiau a'r hanes chwilio ar y rhyngwrwyd. Ni ellir rhagweld a all darn o wybodaeth gael effaith sylweddol ar wneud penderfyniadau felly byddai'n ddoeth aros nes bod yr holl linellau o gasglu gwybodaeth wedi'u cwblhau.

Mae gwendidau a thystiolaeth arall a gyflwynir yn y PGA yn nodi Channel ar y pwynt hwn. Byddai hyn wedi cadw'r achos yn weithredol tra bod y wybodaeth ychwanegol yn cael ei chasglu; byddai gan yr achos wedyn bersbectif aml-asiantaethol wedi'i gymhwyso mewn perthynas â radicaleiddio.

Argymhelliad 10 – Dylid adolygu polisi CTCO i sicrhau bod yr holl ymholiadau sydd heb eu hystyried neu gasglu gwybodaeth yn cael eu cwblhau cyn cau.

Polisi – Mae canllawiau CTCO bellach yn cyfeirio at wybodaeth gadarnhau yn ystod y cyfnod PGA, ond gellid adolygu'r iaith hon a'i thynhau i sicrhau bod yr holl ymholiadau sy'n weddill yn cael eu cwblhau.

Pwynt dysgu N – O'r PGA mae'r swyddog wedi tynnu sylw at nifer o feysydd risg sy'n bresennol yn ogystal ag ideoleg anhysbys. Ni chofnododd y PGA fod gan AMR gŵyn er bod tystiolaeth bod ganddo gwynion yn erbyn ei gyd-ddisgyblion, ei athrawon, a'i deulu (gan gofio ei fod yn chwilio am ymosodiadau ysgol torfol ar y rhyngwrwyd). Eglurwyd rhai o'r rhain fel rhan o'i nodweddion ymddygiad awtistig gan y CTCO – efallai bod hyn yn wir ond maen nhw'n dal i fod yn berthnasol i'w fregusrwydd i gael ei ddenu at derfysgaeth. Mae'r penderfyniad i gau'r atgyfeiriad ar y pwynt hwn yn amheus, gan gofio'r weithred dreisgar sydd eisoes wedi'i chyflawni, gwendidau statig AMR, ei ddiddordeb posibl mewn llofruddiaethau torfol a chwiliadau eraill ar y rhyngwrwyd. Mae gwendidau statig AMR ac ideoleg wedi'u plethu a dylid eu hystyried gyda'i gilydd wrth wneud penderfyniadau. Mae tystiolaeth yn y nodiadau bod y ddau fater hyn wedi'u hystyried ar wahân.

Sylw yr adolygydd – Bydd angen siarad â CTCOs yn uniongyrchol i gael eu barn ar y pryd, nad oedd, yn anffodus, yn y cwrpas ar gyfer yr adolygiad hwn.

Argymhelliad 11 – Gall gwendidau statig wneud unigolyn yn agored iawn i ddylanwadau. Dylid ystyried hyfforddiant ychwanegol i'r rhai sy'n cynnal asesiadau, ar bwysigrwydd deall effaith gwendidau statig ar newid risgiau radicaleiddio. Lle mae achosion o ymgysylltu cyfyngedig ac anghenion cymhleth, fel Awtistiaeth yn yr achos hwn, yna dylid ystyried penderfyniadau i gyfeirio at Channel o ddifrif. Byddai hyn yn galluogi persbectif proffesiynol ar effaith y gwendidau statig a dull aml-asiantaethol o reoli'r tueddiad i gael eu tynnu i derfysgaeth. Dylid gweld yr argymhelliad hwn ochr yn ochr ag argymhelliad 5.

Polisi – Yn ystod y broses benderfynu i symud yr achos yn ei flaen o'r asesiad cychwynnol i PLP, nid oedd y CTCOs yn gweithredu y tu allan i'r polisi ar y pryd ac, mewn gwirionedd, yn dilyn y polisi yn agos iawn. Nid yw'r polisi yn cael ei gwestiynu ond yn hytrach y penderfyniad terfynol i beidio â chymryd llwybr Channel.

Mae canllawiau CTCO cyfredol yn cwmpasu'r pwynt penderfynu hwn ac yn disgrifio amheuaeth resymol ac nid cred yn berthnasol ar y cam hwn o'r broses.

31/01/2020

Cofnodwyd yr achos fel symud o aros i'w gau i fod wedi cau. Yr un rhesymeg a ddefnyddir ar gyfer y rhesymeg aros i'w gau: *Nid oes unrhyw bryderon CT/DE er bod AMR yn hynod agored i niwed.* Nid oes cofnod ar a dderbyniodd Prevent y canlyniadau o ddyfeisiau AMR na'r rhestr o ddefnydd o'r rhyngwyd gan yr ysgol. Cafodd y canlyniad ar gyfer cau ei gategoreiddio fel *pryder nad yw'n CT ei gyfeirio* at y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Pwynt dysgu O – trwy symud yr atgyfeiriad i gau ar y pwynt hwn, mae'r atgyfeiriad yn gollwng oddi ar y radar ac nid yw'r system PCMT bellach yn nodi diffyg gweithredu ar y cofnod.

Mae Argymhelliad 10 yn berthnasol i'r pwynt dysgu hwn.

15/05/2020

Mae cofnod PCMT yn nodi bod [CTCO] wedi *cyfeirio at wiriadau ffynhonnell agored* –

Sylw yr adolygydd – Nid yw'r Adolygydd yn siŵr a ofynnwyd am wiriadau ymchwil ffynhonnell agored ar y pwynt hwn a pham, mae hyn rhywbryd ar ôl cau.

03/08/2020

Cynhaliwyd adolygiad 6 mis. Ni chofnodwyd unrhyw bryderon pellach, a chofnodwyd gwiriadau ar ôl cwblhau ar Connect a PNC.

Sylw yr adolygydd – Yn 2019 nid oedd unrhyw ofyniad mewn polisi i adolygu atgyfeiriadau a gaewyd yn yr asesiad cychwynnol nac ar gyfer achosion PLP. Mae hyn yn awgrymu bod y CTCO wedi ychwanegu eu gwiriadau eu hunain i'r broses. Dim rhagor o wybodaeth ar y pwynt hwn a dim diweddariad / dilyniant ar wybodaeth y ddyfais a'r rhestr o wefannau gan yr ysgol. Nid oes unrhyw naratif arall wedi'i gofnodi ar gyfer yr adolygiad hwn.

Pwynt dysgu P – er bod gan yr achos adolygiad ychwanegol nad oedd yn ofynnol yn y polisi, nid yw wedi'i gofnodi bod y camau gweithredu pendant ynghylch canlyniadau chwilio dyfeisiau neu ddefnydd o'r rhyngwyd gan yr ysgol wedi'u cwblhau.

Mae Argymhelliad 10 yn berthnasol i'r pwynt dysgu hwn.

15/01/2021

Cynhaliwyd adolygiad 12 mis. Cofnodwyd gwiriadau ar ôl eu cwblhau ar Connect a PNC. Nid oes unrhyw wybodaeth bellach wedi dod i'r amlwg, ac mae'n nodi bod *adolygiad 24 mis yn ddyledus ar 15/01/2022* – nid yw hyn mewn unrhyw bolisi na chanllawiau ac ni chafodd yr adolygiad ei gynnal neu ni chafodd ei gofnodi.

Crynodeb o'r atgyfeiriad Cyntaf

Mae PCMT yn system llif gwaith, felly mae'r CTCOs sy'n ei gwblhau yn cael eu harwain o un cam i'r nesaf. Mae'r Polisi ar gyfer Ymarferwyr Prevent 2018 yn disgrifio camau gweithredu / safonau gofynnol ym mhob cam o'r broses ac mae'r achos hwn wedi cydymffurfio â'r polisi hwnnw. Roedd lefel uchel o gydymffurfiaeth â pholisi a phroses. Mae'r prydlondeb ar gyfer cwblhau camau gweithredu a nodir mewn polisi o safon uchel, asesiadau wedi'u cwblhau'n gyflym, ac roedd cynnydd yr achos yn adlewyrchu'r amserlenni a osodwyd mewn polisi ar y pryd.

Mae yna broblem bosibl mewn perthynas â therminoleg FIMU yn cael ei ddefnyddio gan CTCOs Prevent ac yn cael ei dynnu allan o gyd-destun yr ystyr gwreiddiol o fewn y FIMU, sef y defnydd o'r term CT/DE perthnasol. Mae gan hyn y potensial i CTCOs ragflaenu penderfyniadau cyn cwblhau ymholiadau ac asesiadau a gellir ei ddefnyddio i ddilysu nad oes gan yr achos dan sylw unrhyw bryderon. Mae'r pryder hwn wedi'i gyfeirio ato yng nghanllawiau CTCO a'i rybuddio yn ei erbyn.

Roedd y penderfyniadau yn yr atgyfeiriad cyntaf yn dibynnu ar a oedd gan AMR Ideoleg. Gall y ffocws ar ideoleg anwybyddu y gall unigolion hefyd fod yn agored iawn i ddylanwadau ac efallai y bydd ond yn dangos ymgysylltiad cyfyngedig iawn ag ideoleg. Mae hyn yn gwaethygu pan fydd y ddau fater, gwendidau statig ac ideoleg, wedyn yn cael eu hystyried ar wahân ac nid yw effaith un ar y llall yn cael ei ystyried yn llawn. Mae'n farn yr Adolygydd bod y pwyslais hwn ar ideoleg wedi creu bwlch lle mae unigolyn hynod agored i niwed, y gallai ei wendidau hefyd fod wedi ei wneud yn agored iawn, wedi cael ei gau i Prevent heb ystyried cefnogaeth trwy Channel. Er y tu allan i'r cwrpas ar gyfer yr adolygiad hwn, os yw newid meddwl i'w ystyried i lenwi'r bwlch hwn, bydd angen ystyried o ddifrif y cwrpas cynyddol ar gyfer Prevent a datgan paramedrau yn glir i atal y dirwedd rhag agor mor eang fel bod pawb sydd ag angen cymhleth yn cael eu cyfeirio at Prevent a Channel.

Ym marn yr Adolygydd, ac mae hyn yn oddrychol iawn, roedd gan yr atgyfeiriad hwn ddigon o bryderon i symud tuag at ofod Channel a deddfu'r broses casglu gwybodaeth aml-asiantaeth ac yna penderfyniad i gyfeirio at Banel Channel. Mae'r holl bryderon hyn, sy'n cynnwys ymchwilio i saethu mewn ysgolion a datgan bod yr ymosodiad ar y 'MEN' yn beth da, yn cael eu dogfennu gan y CTCO a'r Goruchwyliwr yn y nodiadau a'r asesiadau. Mae'n bosibl bod y farn hon wedi cael ei rhannu gan y CTCO a'r goruchwyliwr gan nad oedd yr atgyfeiriad wedi'i gau ar unwaith ond ei symud i PLP. Oherwydd cyfyngiadau amser yr adolygiad hwn, ni fu'n bosibl siarad yn uniongyrchol â'r swyddogion dan sylw. Gallai'r penderfyniad hanfodol hwn fod wedi effeithio ar sut roedd yr atgyfeiriadau dilynol yn cael eu hystyried a'u hasesu ar gyfer AMR. Efallai y bydd sylwadau a safbwyntiau gan aseswyr FIMU wedi rhagflaenu / dylanwadu ar wneud penderfyniadau ac wedi cael eu defnyddio i ddilysu barn y swyddogion. Roedd llinellau ymholiad nad oeddent wedi'u cwblhau ar y pwynt cau a allai fod wedi newid canlyniad yr asesiad.

Mae'r polisi / canllawiau cyfredol wedi'u cryfhau ar sut y dylid rheoli achosion PLP gyda chreu Cynllun Cyfarfod Panel Partneriaeth dan Arweiniad yr Heddlu. Mae strwythur bellach wedi'i greu i reoli achosion yn PLP i dynnu at ei gilydd a goruchwyllo rheoli achosion; bydd hyn yn lleihau enghreifftiau o achosion yn cael eu cau yn gynamserol ac yn caniatáu cwestiynu penderfyniadau a wneir gan CTCOs a Goruchwylwyr. Gobeithio bydd y dull safonol ledled y DU yn creu ac yn hyrwyddo arferion cyson yn y ffordd y mae achosion PLP yn cael eu rheoli. Mae yna hefyd ofynion gorfodol i oruchwyllo tasgau penodol sy'n cael eu rhoi yn y system PCMT, fel cwblhau PGA, Fframwaith Ymchwilio Deinamig (DIF), a Fframwaith Asesu Bregusrwydd (VAF).

Argymhelliad 12 – *Dylid ystyried adolygu a chryfhau strwythur ffurfiol rheoli achosion PLP mewn Polisi / Canllawiau, a sut y gellir gorfodi'r strwythur hwn ar draws y gwahanol ranbarthau CTP yn y wlad i sicrhau bod pob cyfarfod Panel PLP yn cael ei gynnal mewn modd cyson. Gallai hyn gynnwys cadeirio goruchwyliaeth gan uwch swyddog, cofnodi'r rhai sy'n bresennol, cymryd cofnodion, amllder cyfarfodydd, creu Cynllun Rheoli Achosion, adolygu cynlluniau a'r potensial ar gyfer adolygiad byw o'r wybodaeth a roddir ar PCMT lle bo hynny'n briodol.*

Ail Atgyfeiriad Prevent AMR

Enw gwahanol – sillafu gwahanol Axel RUDUKUBANA

Sylw yr adolygydd – Nid yw'n hysbys pam mae hyn wedi digwydd; mae posibilrwydd na fydd atgyfeiriadau blaenorol yn ymddangos mewn chwiliadau.

01/02/2021

Atgyfeiriad a dderbyniwyd gan heddlu Swydd Gaerhirfryn ar ffurf 'Ffurflen Pryderon' a e-bostiwyd at [blwch post pryderon Heddlu Swydd Gaerhirfryn] gan yr arweinydd diogelu dynodedig (DSL) yn ysgol Acorns. **Sylwer – mae cyfenw yn cael ei sillafu yn unol â'r atgyfeiriad cyntaf.** Roedd y ffurflen bryderon yn cyfeirio at e-bost gan y DSL yn Ysgol Uwchradd Range (lle cafodd AMR ei eithrio'n wreiddiol am gario cylllell, yna dychwelyd i ymosod ar y disgybl yn 2019). Mae'r atgyfeiriad yn nodi bod disgybl wedi tynnu i sylw'r DSL bod AMR yn postio ar [gyfryngau cymdeithasol] ac roedd y disgybl yn pryderu am gynnwys radicaleiddio posibl. Rhannwyd dwy sgrin rhwng y ddwy ysgol a'r heddlu. Gofynnwyd am y delweddau hyn ond nid oeddent ar gael i'w gweld. Nid oedd y system PCMT yn gallu trin lanlwythiadau ffeiliau ar y pryd felly ni chadwyd unrhyw ddelweddau ar PCMT.

Sylw yr adolygydd – Mae'r system PCMT gyfredol bellach yn gallu storio ffeiliau wedi'u lanlwytho ar achosion. Gofynnwyd am y delweddau hyn ac nid ydynt wedi'u darparu eto; nid yw'n hysbys a oedd y delweddau hyn wedi'u storio ar [system cudd-wybodaeth Heddlu CT] ar y pryd.

Cadarnhawyd gan y pennaeth dros dro yn ysgol Acorns fod AMR yn dal i fod ar y gofrestr yn yr ysgol.

08/02/2021

Atgyfeiriad wedi'i gofnodi ar PCMT.

Sylw yr adolygydd – Creu cofnod ar PCMT – cyfeirnod 37556. Mae crynodeb achos wedi cysylltu'r atgyfeiriad cyntaf â'r ail atgyfeiriad er gwaethaf sillafu'r cyfenw yn wahanol.

Wedi'i gofnodi fel bregusrwydd yn bresennol heb unrhyw ideoleg.

09/02/2021

Asesiad FIMU – cysylltiad rhwng yr aatrgyfeiriad 1af a'r 2il a wnaed gan y FIMU. Cofnodir nad yw'r *cudd-wybodaeth newydd yn bodloni'r trothwyon i'w mabwysiadu yn Channel* ac nid yw'n awgrymu bod ganddo unrhyw ideoleg eithafol. Argymhelliad yw *bod yr achos yn addas ar gyfer cau.*

Sylw yr adolygydd – credir bod y FIMU wedi gwneud yr asesiad hwn sydd ar y nodiadau o fewn PCMT. Gofynnwyd am asesiad llawn FIMU ond nid yw wedi'i ddarparu eto.

Pwynt dysgu Q – Fel y soniwyd yn yr atgyfeiriad cyntaf, rôl yr FIMU yw cyflawni'r [asesiad risg] a phenderfynu ar y llwybr y dylai'r achos ei gymryd. Gall cael barn ar ganlyniad terfynol atgyfeiriad neu achos Prevent arwain CTCO i gredu bod yr achos yn addas i'w gau o'r cychwyn cyntaf a dylanwadu ar wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Mae Argymhelliad 8 yn berthnasol i'r pwynt dysgu hwn.

09/02/2021

Cysylltodd [CTCO] â'r cyfeiriwr trwy e-bost i egluro a oedd unrhyw bryderon eraill ynghylch AMR. Mae PCMT wedi cofnodi nad oedd unrhyw bryderon eraill heblaw am y rhai a nodwyd yn yr atgyfeiriad.

15/02/2021

Symudodd yr achos o Asesiad Porth i un sy'n disgwyl cau.

Sylw yr adolygydd – nodir o'r hanes achos bod yr achos wedi cael ei symud ymlaen o'r asesiad cychwynnol i ddisgwyl cau cyn i'r asesiad gael ei gwblhau. Nid yw'n hysbys pam mae hyn wedi digwydd heb siarad â'r swyddog.

Pwynt dysgu R – mae gan yr atgyfeiriad cyntaf wendidau statig wedi'u nodi; nid yw'r rhain wedi'u nodi ar yr achlysur hwn.

Argymhelliad 13 – Dylid rhoi ystyriaethau i ganllawiau ynghylch sut mae atgyfeiriadau lluosog yn cael eu cyfuno â rhai blaenorol i adlewyrchu'r natur ailadroddus. Dylid cynnal adolygiad o'r atodiad polisi atgyfeirio lluosog i ystyried a ddylid cynnwys pwyntiau dysgu o'r adolygiad hwn ac a ellid cryfhau'r polisi mewn perthynas â'r camau y mae'n ofynnol eu cymryd yng ngoleuni'r atgyfeiriad ailadroddus.

Polisi – mae Polisi atgyfeirio lluosog yr Heddlu bellach yn bodoli o fis Ionawr 2023. Mae hyn yn mynegi risgiau uchel posibl ar gyfer atgyfeiriadau lluosog ac yn enwedig yn sôn am y risgiau sy'n gysylltiedig ag atgyfeiriadau a gaewyd yn gynnar yn y broses. Mae'r polisi yn cryfhau goruchwyliaeth oruchwyliol ac yn llofnodi os bydd atgyfeiriadau lluosog.

15/02/2021

Sylw yr adolygydd – PGA – nodwyd yr enw wedi'i sillafu'n gywir yn unol â'r atgyfeiriad a'r atgyfeiriad cyntaf ond nid yn unol â'r endid, sef y person dan sylw a grëwyd ar PCMT ar gyfer yr ail atgyfeiriad hwn.

Anghenion cymhleth – dim yn amlwg ar hyn o bryd

Cwynion – dim yn amlwg ar hyn o bryd.

Pwynt dysgu S – nid oes cyfeiriad at gwynion blaenorol o'r atgyfeiriad blaenorol.

Mae Argymhelliad 3 yn berthnasol i'r pwynt hwn.

Ymgysylltu – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd.

Sylw yr adolygydd – Gall polisi tramor a Libya fod yn arwydd o ymgysylltiad ar hyn o bryd ac angen archwilio ymhellach.

Ideoleg – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Grwpiau a sefydliadau unigol – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Galluoedd – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Bwriad – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Cyfle – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Rhyngrwyd a'r Cyfryngau Cymdeithasol – Mae'r person dan sylw wedi gwneud sylwadau ar bostiadau [cyfryngau cymdeithasol] sy'n ymwneud â Gaddafi. Mae hyn wedi cael ei asesu gan FIMU fel hen gudd-wybodaeth; nid yw'n awgrymu bod ganddo unrhyw ideoleg eithafol.

Pwynt dysgu T – mae dibyniaeth eto ar farn y FIMU ynghylch cyd-destun yr atgyfeiriad. Mae'r pwynt hwn wedi'i grybwyll o'r blaen ym mhwynt dysgu M.

Teithio amheus – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Adeiladau – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Rhybudd Sbarduno Dwysâd – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Ymddygiadau mobileiddio neu orffen – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Aseswyd fel – addas i'w gau gan CTCO. Cynhaliwyd ymchwil ffynhonnell agored i briodoli cyfrifon i AMR a chanfod dim a siarad â ffynhonnell yr atgyfeiriad i ddeall a oedd unrhyw bryderon eraill.

Sylw yr adolygydd – O'r nodiadau achos mae'r CTCO wedi adolygu'r delweddau dan sylw. Mae'r Adolygydd wedi gofyn am y rhain ond nid ydynt wedi'u darparu eto.

Sylwadau goruchwyliwr – Sylwadau bod diffyg gwybodaeth ychwanegol amlwg ac yn cytuno â'r llwybr cau.

Sylw yr adolygydd – mae'r dyfyniad hwn o'r nodiadau PCMT wedi'i aralleirio gan yr Adolygydd; gellir gweld y sylwadau llawn ar y sgrin luniau.

17/02/2021

Symudodd yr achos o cau arfaethedig i gau. Y rhesymeg a roddir i gau yw bod diffyg gwybodaeth ym mhob maes. Roedd pryderon ynglŷn â phostiadau ar-lein nad ydynt yn cael eu hystyried yn berthnasol i CT/DE. Nid oes angen diogelu pellach, ac nid yw'r goruchwyliwr yn gallu gweld yr atgyfeiriad blaenorol ar PCMT. Byddai CTCO yn disgwyl gweld yr holl atgyfeiriadau ac achosion wedi'u rhestru o dan yr un person ar y PCMT.

Sylw yr adolygydd – Efallai na fydd y goruchwyliwr wedi gallu gweld yr atgyfeiriad blaenorol ar PCMT oherwydd bod y cofnod achos 1af wedi'i greu o dan sillafiad ychydig yn wahanol. Mae'r cyfeiriad nodyn achos uchod wedi'i aralleirio ond yn adlewyrchiad cywir o'r sylwadau a gofnodwyd ar y nodiadau o fewn PCMT; gellir gweld y rhain ar y sgrin luniau a ddarperir i'r Adolygydd.

Pwynt dysgu U – *Gan nad oedd y goruchwyliwr yn gallu dod o hyd i'r atgyfeiriad blaenorol ar PCMT, gallai hyn fod wedi peri i'r achos gael ei gau'n gyflym ar ychydig iawn o wybodaeth. Gall hyn fod oherwydd bod yr ail atgyfeiriad yn cael ei greu ar bwnc/endid unigol newydd oherwydd camsillafu cyfenw AMR.*

Argymhelliad 14 – *Dylid ystyried adolygiad o'r sgriniau prompt PCMT cyfredol i weld a yw'r awgrymiadau hyn yn ddigonol i negyddu'r angen am lawlyfr a pholisi safonau mewnbynnu data llawn. Os na, dylid ystyried llawlyfr safonau mewnbynnu data a'i ymgorffori mewn polisi. Gall cofnodi data anghywir (enwau, dyddiadau geni, a data ar goll) arwain at beidio â chanfod gwybodaeth flaenorol gan CTCOs sy'n asesu atgyfeiriad newydd a methiant posibl i gysylltu'r dotiau rhwng atgyfeiriadau. Gall polisi yn y maes hwn ei gwneud hi'n haws dal defnyddwyr i gyfrif am eu safonau mewnbynnu.*

23/08/2021

Adolygiad 6 mis wedi'i gynnal – Cynhaliwyd gwiriadau Connect, Morse a PNC; dim un wedi cyflwyno gwybodaeth newydd.

Polisi – Roedd canllawiau CTCO 2018 ar waith erbyn yr ail atgyfeiriad. Yn y polisi a'r canllawiau diwygiedig hwn roedd newid yn y meddwl o ran cynnal adolygiadau ar ôl cau. Roedd adolygiadau i'w cynnal ar ôl i achos gael ei reoli naill ai yn PLP neu Channel a safonau gofynnol i gynnal yr adolygiadau hyn 6 mis a 12 mis ar ôl cau. Nid oedd unrhyw ofyniad i adolygiadau gael eu cynnal ar gyfer atgyfeiriadau a gaewyd yn yr asesiad cychwynnol.

Sylw yr adolygydd – yn unol â'r atgyfeiriad cyntaf, cynhaliwyd adolygiad ar ôl cau. Roedd yr adolygiad a gynhaliwyd y tu allan i'r meini prawf adolygu gan nad oedd yr achos wedi'i fabwysiadu i PLP na Channel. Roedd yr adolygiad hwn y tu hwnt i'r gofynion a osodwyd yn y polisi.

Crynodeb o'r ail atgyfeiriad

Ymdriniwyd â'r ail atgyfeiriad hwn ar gyfer AMR yn gyflym. Nid yw'n hysbys heb siarad â swyddogion sy'n gwneud y penderfyniadau a allai barn gan y FIMU fod wedi bod yn ddylanwadol yn eu penderfyniadau. Ystyriwyd yr atgyfeiriad cyntaf hefyd gan y FIMU a'r CTCO, ond mae'n ymddangos nad oedd y Goruchwyliwr yn gallu dod o hyd i'r atgyfeiriad 1af i'w adolygu.

Gan mai ail atgyfeiriad oedd hwn, roedd nifer o linellau ymholiad posibl nad ydynt wedi'u cynnal felly mae'r asesiad wedi'i wneud ar ychydig iawn o wybodaeth. Gallai'r llinellau ymholiad ychwanegol hyn fod wedi:

- Siarad yn uniongyrchol â ffynhonnell yr atgyfeiriad yn hytrach na gofyn cwestiwn uniongyrchol trwy e-bost.
- Cael rhestr o chwiliadau ar y rhyngrwyd gan yr ysgol.
- Siarad yn uniongyrchol â'r disgybl a adroddodd y pryderon. Gallai hyn fod wedi creu cyfle i weld deunydd arall a bostiwyd gan AMR ar [gyfryngau cymdeithasol] a sefydlu cyfrif defnyddiwr i gynorthwyo ymchwil ffynhonnell agored. Roedd CTCO yn gwybod bod [cyfryngau cymdeithasol] ond ni allai ddod o hyd iddo trwy ymchwil ffynhonnell agored.
- Siarad â rhieni AMR.

Mae'r PGA yn colli gwybodaeth allweddol a gofnodwyd yn yr atgyfeiriad 1af / PGA ac a fyddai'n dal i fod yn berthnasol ar gyfer yr ail atgyfeiriad hwn, gan gynnwys ar anghenion cymhleth. Gallai hyn fod wedi effeithio ar y penderfyniadau a wnaed.

Caewyd yr atgyfeiriad hwn heb y lefel o chwilfrydedd proffesiynol a ddisgwylir o gofio mai ail atgyfeiriad oedd. Nid oedd unrhyw bolisiâu na chanllawiau ar waith ynghylch atgyfeiriadau lluosog neu aml ar y pryd er iddo gael ei ystyried yn eang i fod yn gynnydd posibl mewn risg. O brofiad yr Adolygydd ei hun, trafodwyd y mater atgyfeirio ailadroddus mor bell yn ôl â 2014.

Mae posibilrwydd bod dibyniaeth ar y canlyniad atgyfeirio cyntaf wedi dylanwadu ar sut gafodd yr ail atgyfeiriad hwn ei drin.

Fel gyda'r atgyfeiriad cyntaf, mae'r holl amserlenni a pholisi wedi'u dilyn o ran cynnal asesiadau, yn y FIMU a Prevent.

Trydydd Atgyfeiriad Prevent AMR

26/04/2021 – Trydydd atgyfeiriad a grëwyd ar PCMT – Cyfeirnod achos PCM 38648

Enw wedi'i gamsillafu, yn wahanol i atgyfeiriad 1 a 2, unigolyn a grëwyd fel Axel Muganwa RUDAKABANA –

Sylw yr Adolygydd – dyma'r ail achos lle nad yw'r CTCO wedi creu achos newydd ar yr endid dan sylw gwreiddiol o fewn PCMT. Fodd bynnag, roedd y CTCO yn ymwybodol o'r atgyfeiriad ailadroddus gan fod y FIMU a'r CTCO yn cyfeirio ato ar y nodiadau o fewn PCMT.

Nodyn polisi – Mae ffurflen atgyfeirio genedlaethol newydd wedi'i lansio yn 2024 a diweddarwyd canllawiau dyletswydd Channel a Prevent yn 2023, sydd gyda'i gilydd yn helpu i safoni sut y gwneir atgyfeiriadau Prevent a'r llwybrau atgyfeirio.

Prif weithgaredd a gofnodwyd fel 'Wedi'i Radicaleiddio' ac Ideoleg wedi'i restru fel *'Bregusrwydd yn bresennol ond dim ideoleg'*.

Nodyn wedi'i ychwanegu at y PCMT gan [swyddog heddlu] yn disgrifio pob un o'r 3 atgyfeiriad hyd yma a chanlyniadau pob un, gan gydnabod bod AMR wedi bod yn destun atgyfeiriadau dro ar ôl tro. Mae CTCO yn disgrifio'r trydydd atgyfeiriad fel ymateb byrbwyll posibl i gyngor a roddwyd i'r ysgol y gallant ei ailgyfeirio os oes ganddynt bryderon pellach. Mae CTCO hefyd yn nodi *bod AMR yn aros am Gynllun Addysgol, Iechyd a Gofal (EHCP), bod yr atgyfeiriad yn fwriadol dda ac nad yw'r atgyfeiriad newydd yn cynnwys unrhyw fregusrwydd CT/DE ac mae'n tynnu sylw at ddiddordeb AMR mewn newyddion y byd a materion cyfoes.*

Polisi – Mae'r polisi atgyfeirio lluosog 2023 bellach wedi cryfhau'r maes hwn yn sylweddol.

Mae asesiad FIMU yn cael ei ddal yn y PGA o dan y 'Llwybr a Argymhellir'.

29/04/2021

Cofnodwyd gwiriadau ar PCMT; nid oes gan AMR unrhyw gyswllt heddlu arall heblaw am y digwyddiad ar 11/12/2019.

Symudodd yr achos o asesiad FIMU i Asesiad Porth. Y rhesymeg a gofnodwyd fel *un sydd wedi'i asesu gan FIMU fel nad yw'n CT / DE a bydd yr EHCP yn mynd i'r afael â gwendidau.*

Pwynt dysgu V – Er bod y mater ynglŷn ag asesiadau FIMU wedi'i godi cyn hynny, mae'n werth nodi bod hyn wedi digwydd eto. **Pwyntiau dysgu blaenorol K & M yn berthnasol.**

Pwynt dysgu W – Nid yw'n ymddangos bod canlyniadau gwirio FIMU yn cael eu cofnodi'n fanwl ar PCMT. Mae hyn yn heriol i unrhyw un sy'n dymuno adolygu hanes achosion, yn enwedig wrth wneud asesiadau newydd ar gyfer atgyfeiriadau lluosog.

Mae Argymhelliad 1 yn berthnasol.

07/05/2021

Symudodd yr achos o asesiad Porth i un sy'n disgwyl cau. Rhoddir rhesymeg gan nad oes unrhyw bryderon CT/DE ac mae AMR ar hyn o bryd yn aros am leoliad EHCP ac addysg arbenigol.

Sylwadau yr adolygydd– PGA wedi'i gopïo i'r adran nodiadau ar PCMT – nodwyd bod dyddiad yr atgyfeiriad a ddangosir ar y PGA yr un dyddiad â'r ail atgyfeiriad ar gyfer AMR; mae'r rhif cyfeirnod PCM hefyd yr un â'r ail atgyfeiriad. Mae hyn yn awgrymu bod y PGA blaenorol (o'r ail atgyfeiriad) wedi'i ddefnyddio yn rhannol ar gyfer yr asesiad newydd hwn.

Pwynt dysgu X – Mae angen i CTCOs fod yn ymwybodol o gywirdeb wrth ailddefnyddio ffurflenni wedi'u cwblhau o'r blaen neu ailddefnyddio cofnodion / gwybodaeth flaenorol. Mae angen i CTCO a goruchwylwyr arfer diwydrwydd dyladwy i wirio bod manylion fel sillafiadau enwau, dyddiadau geni, dyddiadau atgyfeiriadau a rhifau cyfeirnod yn gywir.

Rhoddir cyd-destun ynglŷn â'r atgyfeiriad a'r sgysiau rhwng AMR a'i athro pan welsant ef gyda thabiau rhyngwyd ar agor yn ystod gwersi gyda 'London Bridge' yn weladwy i'r athro. Disgrifiodd yr athro y sgws gydag AMR fel bywiog ac angerddol fel pe bai'r pynciau hyn o ddiddordeb mawr iddo.

Anghenion cymhleth – mae gan y person dan sylw ddiagnosis ASD ac mae'n aros am leoliad addysgol arbenigol EHCP.

Cwynion – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd.

Ymgysylltu – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd.

Ideoleg – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Grwpiau a sefydliadau unigol – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Galluedd – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Bwriad – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Cyfle – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Rhyngwyd a'r Cyfryngau Cymdeithasol – Mae'r person dan sylw wedi gwneud sylwadau ar bostiadau [cyfryngau cymdeithasol] sy'n ymwneud â Gaddafi. Mae hyn wedi cael ei asesu gan FIMU fel gan nad yw'n gudd-wybodaeth newydd, nid yw'n awgrymu ei fod yn dal unrhyw ideoleg eithafol. Wedi cael ei asesu fel dim bregusrwydd CT / DE ac ond yn tynnu sylw at ddiddordeb yn newyddion y byd a materion cyfoes sy'n nodwedd o ASD.

Teithio amheus – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Adeiladau – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Rhybudd Sbarduno Dwysâd – nid yw'n amlwg ar hyn o bryd

Ymddygiadau mobileiddio neu orffen – ddim yn amlwg ar hyn o bryd Asesu fel / Llwybr a Argymhellir – Cau

Sylw yr adolygydd – isod mae rhywfaint o gynnwys o'r llwybr a'r asesiad a argymhellir. Mae rhywfaint o hyn yn dangos 'asesiad FIMU' ond oherwydd fformat y wybodaeth sy'n cael ei thorri a'i gludo ar y nodiadau o fewn PCMT mae'n anodd pennu asesiad FIMU o sylwadau'r CTCO.

Mae CTCO yn cydnabod yr atgyfeiriadau blaenorol ac yn edrych yn gyfannol ar draws y tri atgyfeiriad.

Mae FIMU yn cydnabod pob un o'r 3 atgyfeiriad, yn rhoi crynodeb o bob un ac yn nodi bod yr atgyfeiriad 1af wedi'i gau heb unrhyw bryderon CT DE ar ôl ymweliad gan swyddogion Prevent a bod *gwendidau yn gorwedd mewn mannau eraill mewn diagnosis ASD posibl*.

Pwynt dysgu Y – Gall y term a ddefnyddir uchod i ddisgrifio bod gwendidau AMR yn gorwedd mewn mannau eraill mewn diagnosis ASD posibl anwybyddu bod ASD (niwroamrywiaeth) yn ffurfio rhan o'r ffactorau a ddaliwyd yn y Fframwaith Asesu Bregusrwydd a ddefnyddir ar gyfer Channel ac ni ddylid ei ystyried fel mater ar wahân i'r bregusrwydd i gael eu tynnu i derfysgaeth. Mae ASD posibl AMR a 'diddordeb arbennig', sy'n aml yn cael eu cyfuno, yn rhan o'r rhesymau sy'n ei wneud yn agored i gael ei dynnu i derfysgaeth. O'i gymryd yng hyd-destun y buddiannau arbennig posibl mewn lladd torfol, gweithredoedd terfysgol, a'r gallu i gyflawni trais, yna mae bregusrwydd posibl i gael eich tynnu i derfysgaeth.

Parhaodd asesiad FIMU – disgrifir ail atgyfeiriad gan gynnwys y lluniau a anfonwyd at ddisgybl arall trwy [cyfryngau cymdeithasol]. Caewyd hwn gan *nad oedd CTDE*.

Parhaodd asesiad FIMU – disgrifir trydydd atgyfeiriad gan gynnwys gwylio adroddiadau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, Pont Llundain yn un ohonynt, a siarad am Israel, Palestina, MI5 a'r IRA. [Cynhaliwyd asesiad iddo].

Sylw yr adolygydd – [Cynhaliwyd asesiad risg.]

Ar ôl ailadrodd pellach gan [CTCO] yr argymhelliad oedd cau'r achos.

Llwybr a argymhellwyd gan y goruchwyliwr – Cau

Sylwadau a argymhellwyd gan y goruchwyliwr – Cytunodd ag asesiad ac argymhelliad [CTCO] i gau'r achos gan fod gan yr *unigolyn ddiddordeb mewn llawer o wahanol ddigwyddiadau hanesyddol a materion cyfoes ac nid yw'n dangos unrhyw rethreg eithafol*. Yn cadarnhau bod pryderon blaenorol wedi'u trin yn ddigonol a bod pob lefel o gymorth gan bartneriaid ar waith ar hyn o bryd.

Pwynt dysgu Z – o ystyried y 3 atgyfeiriad, natur anhysbys yr ymgysylltiad, a'r lefel uchel o dueddiad, dylai hyn fod wedi cael ei gyfeirio at Channel ac nid ei gau. Dylai'r natur ailadrodd i'r atgyfeiriadau nodi bod angen mwy o amser i asesu'r unigolyn hwn

a chydabyddiaeth y gall risgiau / gwendidau anhysbys fod yn amlwg. Mae'r rhain bellach wedi'u cynnwys yn y Polisi Atgyfeiriadau Lluosog a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023.

10/05/2021

Symudwyd achos o gau arfaethedig i gau. Y rhesymeg a roddwyd yw, er bod AMR wedi dangos diddordeb mewn bom diweddar yn Llundain ac erthyglau newyddion eraill, mae sgwrs CTCO gyda'r cyfeiriwr wedi ychwanegu rhywfaint o gyd-destun at hyn. Mae gan AMR ddiddordeb yn gyffredinol mewn hanes a materion cyfoes sy'n cynnwys gwrthdaro Israel/Palestina, IRA ac ymosodiadau Llundain. Nid oes unrhyw safbwyntiau eithafol, na rhethreg CT/DE ac mae AMR yn dangos lefel ddatblygol o feddwl beirniadol ynghylch gwahanol safbwyntiau. Nodwyd yr atgyfeiriadau blaenorol ond nid oeddent yn teimlo bod hynny'n newid canlyniad yr asesiad ac roedd cefnogaeth eisoes ar waith ar gyfer AMR. Roedd y swyddog asesu yn teimlo ar y wybodaeth oedd ar gadw ar y pryd nad oedd unrhyw risg o radicaleiddio a chytunodd i gau'r achos.

Sylw yr Adolygydd – mae'r Adolygydd wedi aralleirio o'r nodyn o fewn PCMT.

Caewyd yr achos fel 'Asesiad cychwynnol Pryder nad yw'n CT y cyfeirir ato' a chafodd yr achos ei gyfeirio yn ôl i'r ysgol.

Dyma'r cofnod olaf ar PCMT.

Casgliadau

Ar y cyfan, mae'r Adolygydd o'r farn bod lefel uchel o gydymffurfiaeth wedi bod gan y swyddogion Prevent ag amserlenni prosesau, cwblhau asesiad a chadw at bolisi a oedd ar waith ar y pryd. Ond er bod prosesau a pholisïau wedi'u dilyn yn gywir i raddau helaeth, mae'r penderfyniadau goddrychol wedi dod i'r amlwg. Wedi'u nodi trwy gydol yr adolygiad mae nifer o ffactorau a allai fod wedi effeithio ar wneud penderfyniadau gan CTCOs:

1. Yr asesiadau a wnaed a barn y FIMU

Er eu bod yn gywir yng hyd-destun canllawiau a safonau aseswyr [y polisi ar guddwybodaeth], defnyddiwyd asesiadau FIMU o bosibl y tu allan i'r cyd-destun yn Prevent. Gall hyn arwain at ragflaenu neu ddylanwadu ar wneud penderfyniadau o fewn Prevent gan CTCO a'u goruchwylwyr.

2. Y cwestiwn o ideoleg a'r diffyg ohoni yw'r thema ganolog trwy gydol ymdrin â phob un o'r 3 atgyfeiriad

Efallai bod gorbwyslais ar bresenoldeb ideoleg er anfantais i ystyried bresugrwydd AMR. Efallai bod y ddwy elfen wedi cael eu gwahanu a'u hystyried ar wahân yn hytrach na'u hystyried gyda'i gilydd. Mae'r llythyr HO/CTP ar y cyd a anfonwyd at y rhwydwaith Prevent ([Atodiad C](#)) sy'n manylu ar sut y gellid gweld atgyfeiriadau cymysg aneglur ac ansefydlog yn crynhoi'r pwynt hwn. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod y llythyr hwn wedi cael ei ystyried gan rai fel un amwys. Nid yw gwybodaeth a dealltwriaeth y CTCO o'r llythyr hwn wedi'i sefydlu.

Gall y pwyslais hwn ar ideoleg fodoli heddiw ac mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i atgyfeiriadau ac achosion lle mae unigolion yn hynod agored i niwed / yn hawdd eu dylanwadu ond yn brin o ideoleg diffiniedig. Ers mis Ebrill 2024, bu newid mewn categoreiddio ideolegau ar gyfer pob atgyfeiriad ac achos. Pe bai'r categorïau newydd hyn yn cael eu cymhwyso heddiw, gallai ei achos nawr syrthio i un o ddau gategori newydd, naill ai 'Dim ideoleg – sensitifrwydd arall i radicaleiddio wedi'i nodi' neu 'Diddordeb mewn trais eithafol neu ymosodiadau anafiadau torfol.'

3. Roedd llinellau ymholiad nad oeddent wedi'u cwblhau

O ganlyniad, ni chawsant eu cynnwys yn yr asesiadau, a allai fod wedi cael dylanwad ar y penderfyniadau a wnaed ar y pryd. Dylai'r ymholiadau hyn fod wedi cael eu cwblhau cyn i benderfyniadau canlyniadau allweddol gael eu gwneud.

4. Risg bosibl o atgyfeiriadau lluosog

Dylai natur atgyfeiriadau lluosog (3) ar gyfer yr un person dros gyfnod o 17 mis, pob un â chynnwys posibl y gellid ei ystyried yn berthnasol i Prevent a lefelau uchel o dueddiad, fod wedi cyfiawnhau mwy o graffu. O ganlyniad i'r penderfyniad i beidio â chyfeirio at Channel, roedd pob atgyfeiriad dilynol o bosibl yn cael ei ystyried yn yr un modd. [Roedd cysondeb o ran meddwl drwy'r amser].

5) Sicrwydd

Roedd y System Rheoli Achosion Prevent (PCMT) blaenorol yn 2019 ar gau i bob personél ac eithrio defnyddwyr awdurdodedig yr heddlu. Mae'r PCMT gwell presennol yn system lled-gaeedig lle gall y Swyddfa Gartref gael mynediad at achosion Channel ar ôl i'r penderfyniad Adran 36(3) gael ei wneud gan CTCOs i gyfeirio'r achos at Banel Channel, a hyd at y bwynt cau Channel. Gall y cyfyngiadau hyn ei gwneud hi'n anodd i'r Swyddfa Gartref graffu ar ddarparu neu gynnal adolygiadau brys. Mae'r heriau hyn yn berthnasol i Adolygiadau Dysgu Prevent yn y dyfodol, astudiaethau i gyflenwi, sicrwydd busnes a goruchwyliaeth cydymffurfio. Yn yr achos penodol hwn, pe bai'r Swyddfa Gartref bellach yn dymuno cynnal ymchwil a dadansoddiad i atgyfeiriadau lluosog i ddeall y cyd-destun cenedlaethol a dysgu, o dan gyfyngiadau'r system gyfredol, ni fyddai unrhyw un o'r atgyfeiriadau hyn yn weladwy.

• Partneriaethau dan Arweiniad yr Heddlu

Mae'r achos hwn hefyd yn codi cwestiynau ynglŷn â'r defnydd cychwynnol o Bartneriaethau dan arweiniad yr Heddlu yn hytrach na chyfeirio at Channel. Gwnaed hyn er mwyn galluogi ymweliad ag AMR i ddigwydd. Mae hyn yn ymddangos yn ddiangen gan fod y polisi yn caniatáu i ymweliadau ddigwydd yn ystod y broses PGA os yw'n briodol a thrwy eithriad.

O ystyried pob un o'r uchod, ym marn yr Adolygydd, roedd digon o bryderon gyda'r atgyfeiriad cyntaf i warantu bod yr achos yn parhau i fod ar agor ac yn cael ei gyfeirio at Channel, yn enwedig yng ngoleuni cydsyniad o'r ymosodiad 'MEN'. Mae Channel ar gael i gefnogi unigolion sy'n agored i niwed neu'n agored i gael eu tynnu i derfysgaeth. Nid oes angen profi cysylltiad terfysgaeth diffiniol ar gyfer Channel, dim ond bod yr unigolyn o bosibl mewn perygl o gael ei dynnu i derfysgaeth.

Meysydd a awgrymir i'w hadolygu yn y dyfodol

Wrth gynnal yr Adolygiad hwn, roedd sawl maes nad oedd o fewn cwmpas a nodwyd ar gyfer ymchwil bellach posibl:

- Ymyriadau iechyd meddwl – pa asesiadau a chymorth oedd neu y gellid bod wedi'u darparu gan yr Hyb Cymorth Bregusrwydd, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc Fforensig.
- Hyfforddiant FIMU – pa hyfforddiant a roddir i swyddogion FIMU ynghylch Prevent, a pha hyfforddiant a roddir i CTCOs ynghylch canllawiau FIMU a [y polisi ar gudd-wybodaeth].
- Ideoleg – adolygiad o ideoleg fel yr unig/prif ffocws ar gyfer Prevent pan nodir anghenion cymhleth hefyd.
- Dadansoddiad tueddiadau – astudiaeth thematig o achosion ôl troed Prevent i ddeall y gydberthynas rhwng sut y cafodd yr achosion eu trin gan yr heddlu a Channel o ran cyn cau Adran 36, PLP a Channel.
- Deddfwriaeth – a yw'r prawf presennol a nodir yn Adran 36(3) CTSA 2015 o 'sail resymol i gredu' yn faich rhy uchel ar gyfer atgyfeiriad cychwynnol at Channel, ac a allai gael ei ostwng i 'sail resymol i amau'.

Argymhellion

Argymhelliad 1 – Argymhellir bod cynnyrch rhannu gwybodaeth safonol yn cael ei ystyried i'w ddefnyddio yn genedlaethol gan bob FIMU wrth rannu canlyniadau gwiriadau a gynhaliwyd ar gyfer Prevent. Dylid cytuno ar y cynnyrch hwn yn genedlaethol, ei ddefnydd yn orfodol a'i ysgrifennu yn [y polisi ar gudd-wybodaeth].

Argymhelliad 2 – Dylid ystyried hyfforddiant pellach ynghylch yr amgylchiadau lle gellir cynnal ymweliadau ag unigolion yn ystod yr asesiad cychwynnol. Mae'r polisi yn 2019 ac ar hyn o bryd yn parhau i fod yn ymweld trwy eithriad, a allai wneud i'r swyddogion sy'n cynnal yr asesiad deimlo eu bod wedi'u cyfyngu ar y cam hwn o'r broses. Gall adolygiad o sut mae hyn wedi'i fframio ym mholisi CTCO ynghyd â hyfforddiant pellach helpu CTCOs o ran y penderfyniad i ymweld ag unigolyn yn y cam asesu cychwynnol, heb yr angen i symud ymlaen yr atgyfeiriad i PLP i gyflawni hyn.

Argymhelliad 3 – Dylid ystyried adolygiad o'r hyfforddiant cyfredol ar gyfer goruchwylwyr i gryfhau, wrth lofnodi asesiadau fel rhai cyflawn, bod yr holl ffactorau ymddygiadol a chymhellion ar gyfer ymddygiadau wedi'u cofnodi ar yr asesiadau, p'un a ystyrir eu bod yn berthnasol ai peidio. Nid yw asesiadau cyfredol yn cynnwys elfen 'perthnasedd' Prevent i ffactorau. Mae'r Fframwaith Asesu Prevent (PAF) newydd sydd i fod i fynd yn fyw ym mis Medi 2024 yn mynd rhywfaint o ffordd i fynd i'r afael â pherthnasedd Prevent ar gyfer pob un o'r ffactorau sensitifrwydd.

Argymhelliad 4 – Ystyriwch a ellid cryfhau canllawiau CTCO lle mae defnydd o'r rhyngwrdd / hanes chwilio neu weithgaredd ar-lein arall yn berthnasol. Gallai hyn sicrhau bod CTCOs yn rhagweithiol wrth gael a chofnodi canlyniadau chwilio ar y rhyngwrdd er mwyn asesu'r atgyfeiriad yn ddigonol a gwneud yn siŵr nad yw'r wybodaeth yn parhau i fod yn anhysbys. Fodd bynnag, bydd angen cydbwysu hyn yn erbyn y galluoedd cyfyngedig i'r heddlu gynnal gwyliadwriaeth ymwithiol o fewn y broses Prevent. Dylid ystyried gorchymyn ymchwil ffynhonnell agored yn asesiad cychwynnol PGA.

Argymhelliad 5 – Dylid ystyried polisi a chanllawiau lle dylid cyfeirio atgyfeiriadau sy'n ymwneud â phlant a / neu anghenion cymhleth yn rheolaidd at Channel oni bai mai cau ar unwaith yw'r opsiwn a ddewiswyd, neu fod y risgiau CT yn cael eu hystyried yn rhy uchel i Channel.

Argymhelliad 6 – Mae mynediad llawn i'r system PCMT bresennol wedi'i gyfyngu i'r heddlu yn unig. Er bod gan y Swyddfa Gartref fynediad cyfyngedig, dylid adolygu hyn, gan alluogi craffu ar bob lefel o gyflenwi Prevent fel rhan o brosesau sicrhau ansawdd a busnes. Bydd y mynediad hwn yn galluogi astudiaethau o bob rhan o'r broses a fydd yn llywio newidiadau mewn polisi a chanllawiau ac yn gallu dal rhanddeiliaid allweddol i gyfrif.

Argymhelliad 7 – Dylai pob sylw newydd ar PCMT fod yn unigryw gan ddangos bod y swyddog wedi ystyried eu barn eto. Os nad oes gwybodaeth newydd neu ddim diweddariadau pellach yna dylid mynegi hyn yn hytrach na chopio cofnod blaenorol.

Argymhelliad 8 – Dylid ystyried bod Atodiad B yn cael ei ymgorffori yn [y polisi ar gudd-wybodaeth] ac nid eistedd fel atodiad. Dylai'r polisi fod yn glir ei fod i Prevent benderfynu cau unwaith y bydd yr atgyfeiriad wedi'i drosglwyddo i Prevent ar gyfer

gweithredu ac asesiad cychwynnol. Dylid gwneud yn glir y dylai FIMU ymatal rhag awgrymu canlyniadau Prevent gan y gallai hyn ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan CTCOs neu gefnogi cau yn gynamserol gan Prevent.

Argymhelliad 9 (i) – Ystyriwch newid terminoleg yn rheoli Prevent. Dylid disodli'r term CTP Perthnasol gyda 'Perthnasol i Prevent'. Mae hyn yn ei wahaniaethu oddi wrth y term a ddefnyddir yn yr IMU a allai fod ag ystyr ychydig yn wahanol.

